



Y PANEL TROSOLWG ANNIBYNNOL AR WASANAETHAU MAMOLAETH

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Adroddiad Cynnydd
Medi 2021

RHAGAIR

Ar 30 Ebrill 2019, yn dilyn cyhoeddi adroddiad a oedd yn amlinellu canfyddiadau adolygiad a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd (y Colegau Brenhinol), cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd (y Gweinidog) ei fod yn rhoi'r gwasanaethau mamolaeth yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf mewn 'mesurau arbennig'.

Fel rhan o becyn ehangach o fesurau a luniwyd i gefnogi'i ymyriad, penododd y Gweinidog banel annibynnol (y Panel) i ddarparu'r oruchwyliaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn mynd i'r afael â'r methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol, a hynny mewn modd amserol, agored a thryloyw sy'n sicrhau bod y menywod a'r teuluoedd yr effeithiwyd fwyaf arnynt yn rhan ganolog o'r broses.

Mae'n rhaid i'r Panel gyflwyno adroddiad cynnydd i'r Gweinidog bob chwe mis. Fodd bynnag, yn dilyn sylwadau gan y Panel am effaith COVID-19 ar gyflymder a momentwm rhaglen wella'r Bwrdd Iechyd, cytunodd y Gweinidog y byddai'r adroddiad a oedd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2021 yn cael ei ohirio am chwe mis.

Hefyd, derbyniodd y Gweinidog argymhelliad gan y Panel y dylid canolbwyntio mwy ar wasanaethau newyddenedigol y Bwrdd Iechyd, a phenododd ddau arbenigwr ar faterion newyddenedigol i ddarparu'r capasiti ychwanegol a'r wybodaeth broffesiynol arbenigol yr oedd eu hangen i adlewyrchu'r cylch gwaith ehangach yma.

O ganlyniad, mae'r adroddiad hwn – y pumed i'w gyhoeddi hyd yma – yn rhoi sylw i'r cyfnod o 12 mis hyd at fis Medi 2021, ac yn crynhoi unrhyw gynnydd a wnaed i wella gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau newyddenedigol. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am agweddau eraill ar raglen waith y Panel. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y cefndir, nac yn ailadrodd y dadansoddiad a'r casgliadau a oedd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau blaenorol, ar wahân i'r hyn sy'n angenrheidiol i roi cyd-destun.

Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol presennol hefyd yn cyhoeddi'r ail mewn cyfres o adroddiadau thematig sy'n deillio o Raglen Adolygiadau Clinigol y Panel. Mae'r ail adroddiad thematig yma'n edrych ar y gofal a roddwyd i famau a'u babanod a oedd, gwaetha'r modd, wedi'u geni'n farw. Mae'r adroddiad ar gael [yma](#) ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'n bosibl gweld gwybodaeth arall ar yr un wefan, gan gynnwys adroddiadau cynnydd blaenorol a chylch gorchwyl gwaith y Panel.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth



Mae **Mick Giannasi** (Y Cadeirydd) yn Gadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd yn arfer bod yn Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a bu'n Gomisiynydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn. Swyddog heddlu ydoedd wrth ei waith, ac mae'n gyn-Brif Gwnstabl Heddlu Gwent.



Mae **Cath Broderick** (Aelod Lleyg) yn Gymrawd Anrhydeddus o Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, a hi yw awdur yr adroddiad '*Gwrando ar Farn Menywod a Theuluoedd am Ofal Mamolaeth Cwm Taf*'. Mae ganddi brofiad helaeth o ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, a bu'n cynorthwyo gyda gwaith tebyg ym Mae Morecambe.



Mae gan **Alan Cameron** (Arweinydd Obstetreg) 26 mlynedd o brofiad fel Obstetregydd Ymgynghorol, ac mae wedi cael ei benodi'n ddiweddar yn Arweinydd Clinigol Cenedlaethol Obstetreg a Gynaecoleg ar gyfer Grŵp Cydweithredol yr Alban ar Wella Ansawdd Gwasanaethau Mamolaeth a Phlant.



Mae gan **Christine Bell** (Arweinydd Bydwreigiaeth) dros 30 mlynedd o brofiad o weithio fel Bydwraig yn Lloegr. Treuliodd 10 o'r blynyddoedd hynny'n Bennaeth Bydwreigiaeth yn un o Ymddiriedolaethau mawr y GIG. Mae'n Asesydd Bydwreigiaeth dynodedig gyda Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.



Mae gan **Kelly Harvey** (Arweinydd Nyrsio Newyddenedigol) dros 18 mlynedd o brofiad fel Nyrs y Newydd-anedig ac Uwchymarferydd Nyrs y Newydd-anedig. Ar hyn o bryd mae'n Nyrs Arweiniol ar gyfer Rhwydwaith Gofal Newyddenedigol Gogledd-orllewin Lloegr. Mae hi newydd ddod yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Nyrsys y Newydd-anedig.



Mae gan **Alan Fenton** (Arweinydd Neonatoleg) dros 26 mlynedd o brofiad fel Neonatolegydd Ymgynghorol, ac mae'n gyn-Lywydd Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain. Alan oedd y Neonatolegydd yn nhîm craidd yr Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth yn 2016 (Better Births), ac mae wedi bod yn rhan o raglen gydweithiol MBRRACE-UK ers 2018.

TABL CYNNWYS

1	Y DAITH HYD YMA	1
1.1	Y CYNNYDD HYD AT FIS MEDI 2020.....	1
1.2	EFFAITH AIL DON COVID-19.....	2
1.3	YMATEB Y PANEL	3
2	ASESU CYNNYDD Y BWRDD IECHYD	6
2.1	DATBLYGIADAU DIWEDDAR YN Y RHAGLEN WELLA.....	6
2.2	CYFLAWNI ARGYMHELLION Y COLEGAU BRENHINOL.....	8
2.3	FFYRDD NEWYDD O ASESU GWELLIANNAU.....	9
2.4	YMWELIAD SICRWYDD Y PANEL – 19/20/21 GORFFENNAF 2021.....	11
2.5	YMGYSYLLTU Â'R STAFF	14
2.6	YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID	15
2.7	Y CAMAU NESAF – CYNNYDD.....	16
2.8	ASESIAD PRESENNOL YN ERBYN Y MATRICS AEDDFEDRWYDD	17
2.9	PERFFORMIAD CYMHAROL Y BWRDD IECHYD.....	19
2.10	ASESU CYNNYDD Y BWRDD IECHYD – Y CAMAU NESAF	21
3	YMGYSYLLTU Â MENYWOD A THEULUOEDD	23
3.1	DATBLYGIADAU DIWEDDAR YM MAES YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU	23
3.2	CAMAU NESAF Y DAITH YMGYSYLLTU	24
3.3	CWYNION A PHRYDERON	25
4	GWELLA'R GWASANAETHAU NEWYDDENEDIGOL	26
4.1	MWY O BWYSLAIS AR WASANAETHAU NEWYDDENEDIGOL.....	26
4.2	PWRPAS, FFORMAT A STRWYTHUR YR ADOLYGIAD MANWL O WASANAETHAU NEWYDDENEDIGOL	28
4.3	UWCHGYFEIRIO PRYDERON SY'N DOD I'R AMLWG	29
4.4	CAMAU BRYD Y BWRDD IECHYD	30
4.5	MONITRO AC ADRODD AR GANFYDDIADAU YN Y DYFODOL.....	31
5	Y RHAGLEN ADOLYGIADAU CLINIGOL	32
5.1	GOLWG YN ÔL 2016-2018.....	32
5.2	HUNANATGYFEIRIADAU	34
5.3	DIGWYDDIADAU DIFRIFOL ERS MIS HYDREF 2018	35
6	Y CASGLIADAU A'R CAMAU NESAF	38
6.1	Y CYD-DESTUN	38
6.2	ASESU'R CYNNYDD	39
6.3	Y CAMAU NESAF.....	41
6.4	ARGYMHELLION	41
7	RHESTR O ATODIADAU	42
8	RHESTR TERMAU	51

1 Y DAITH HYD YMA

1.1 Y CYNNYDD HYD AT FIS MEDI 2020

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Medi 2020, daeth i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud yn arbennig o dda yng nghyd-destun ton gyntaf COVID-19 i gadw ffocws a momentwm yn ei Raglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth. O wneud hynny, roedd y Panel o'r farn bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd pellach ac eithaf sylweddol i fynd i'r afael â'r methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol.

O blith y 70 o argymhellion ar gyfer gwella a wnaed gan y Colegau Brenhinol, roedd 12 arall wedi cael eu cyflawni, gan ddod â'r cyfanswm a oedd wedi'u cyflawni i 50. Hefyd, roedd tri o'r camau gweithredu 'gwneud yn ddiogel ar unwaith' a nodwyd gan y Colegau Brenhinol eto i'w cyflawni, ac roedd dau ohonynt (cynllunio'r gweithlu a chanllawiau clinigol) wedi cael eu rhoi ar waith, gan adael dim ond un (newid tymor hir i'r diwylliant) i gael sylw llawn a chynaliadwy.

Er bod y Panel yn cydnabod yr hyn roedd y Bwrdd Iechyd wedi'i gyflawni, rhybuddiodd y byddai angen ailedrych ar y 12 argymhelliad a oedd wedi cael eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod hwnnw, ar ôl i'r cyfyngiadau ar deithio a chyswllt cymdeithasol – a gyflwynwyd fel ymateb i COVID-19 – gael eu codi. Roedd angen gwneud hynny oherwydd bod y Panel yn gweithredu o bell, ac ni fu cyfle i ymweld â'r ysbytai nac i siarad wyneb yn wyneb â'r staff i asesu i ba raddau yr oedd y gwelliannau wedi dod yn rhan annatod o'r ymarfer clinigol o ddydd i ddydd.

Er y cynnydd amlwg a wnaed, pwysleisiodd y Panel fod llawer iawn o waith eto i'w wneud i gyflawni holl argymhellion y Colegau Brenhinol, ac i sicrhau bod y gwelliannau a wnaed hyd at y pwynt hwnnw yn rhan annatod o'r ymarfer ac yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Er bod rheswm dros fod yn ffyddiog wrth symud ymlaen, rhybuddiodd y Panel hefyd fod heriau gweithredol yr ymateb i COVID-19 wedi cael cryn effaith. Roedd staff rheng flaen ac uwch arweinwyr yn edrych wedi ymlâdd, ac roedd rhai gweithgareddau nad oeddent yn rhai hanfodol – fel hyfforddiant, Adolygiad Perfformiad a Datblygiad, a chynllunio ar gyfer swyddi meddygon ymgynghorol – wedi cael eu cwtogi neu eu hatal dros dro. Yn yr un modd, bu'n rhaid gohirio rhai elfennau pwysig o'r rhaglen wella, fel cyflwyno'r rhaglen newid diwylliant, y rhaglen hyfforddiant cyfathrebu a chyflwyno'r strategaeth ymgysylltu. Roedd hynny'n anochel, ac yn golygu y byddai angen 'dal i fyny' ar ôl i'r cyfyngiadau ar deithio a chyswllt cymdeithasol gael eu codi, ac ar ôl i effaith weithredol COVID-19 leihau.

Dywedodd y Panel hefyd fod y rhan fwyaf o'r argymhellion a oedd yn dal heb gael eu cyflawni ar y pryd yn ymwneud â materion tymor hwy a mwy cymhleth, fel newid y diwylliant a datblygu arweinwyr. Ar sail profiad o raglenni gwella tebyg mewn mannau eraill, roedd yn amlwg y byddai'r argymhellion hyn yn cymryd cryn amser i'w cyflawni, a hyd yn oed mwy o amser i gael yr effaith a ddymunir.

Gan ystyried yr holl bethau hynny, rhybuddiodd y Panel ei bod yn annhebygol y byddai'r un lefel o gynnydd i'w gweld yn y cyfnod nesaf, ac awgrymodd y dylid disgwyl colli rhywfaint o'r momentwm fwy na thebyg.

1.2 EFFAITH AIL DON COVID-19

Heb yn wybod i'r Panel ar y pryd, byddai ail don COVID-19 – a ddechreuodd gael effaith o fis Hydref 2020 ymlaen – yn cael effaith ddyfnach ar raglen wella'r Bwrdd lechyd ac yn ei gwanhau fwy na'r don gyntaf.

Fel y digwyddodd pethau, roedd y cyfraddau trosglwyddo COVID-19 yn uchel iawn yn y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan y Bwrdd lechyd, ac roedd yr haint yn cael ei drosglwyddo yn amgylchedd yr ysbyty. Felly, bu'n rhaid addasu dulliau gweithio i ddelio â'r galw cynyddol am atal a rheoli heintiau. Yn ogystal â'r heriau gweithredol a gafodd eu creu yn sgil hyn, bu effaith sylweddol ar lefelau staffio rheng flaen – yn rhannol oherwydd salwch, ac yn rhannol oherwydd nifer y staff a oedd wedi gorfod hunanynysu ar ôl dod i gysylltiad â phobl eraill a oedd wedi'u heintio.

Hefyd, bu'n rhaid adleoli nifer o staff allweddol a oedd yn rhan hollbwysig o'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, er mwyn rhoi cymorth i'w cydweithwyr rheng flaen.

Roedd yn anochel bod y materion hyn wedi effeithio ar gyflymder a momentwm y rhaglen wella, a chafodd nifer o weithgareddau a oedd wedi'u cynllunio eu gohirio'n sylweddol – er enghraifft, datblygu ymhellach y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF), cyhoeddi cynllun gweithredu a oedd yn nodi'r camau nesaf yn nhaith wella'r Bwrdd lechyd, a datblygu gwell cynllun cyflawni gydag elfennau allweddol i'w cyflawni a cherrig milltir cliriach. Bu oedi hefyd wrth ymchwilio i ddiwyddiadau difrifol ers 2018. Roedd hyn yn creu rhywfaint o risg, ac mae hynny'n cael ei drafod ymhellach yn adran 5 yr adroddiad.

Er clod i'r uwch dîm arwain a'r staff cysylltiedig, roedd y Bwrdd lechyd yn dal wedi gallu cynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol, er bod pethau wedi llithro rhywfaint oherwydd problemau capasiti a oedd yn gysylltiedig ag effaith y pandemig yn y Bwrdd lechyd ac yn y timau clinigol annibynnol a gafodd eu recriwtio i gynnal yr adolygiadau. Arweiniodd hyn at ychydig o oedi cyn cyhoeddi adroddiad thematig cyntaf y Panel (Adroddiad Thematig y Categori Mamol), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021.

Ddiwedd mis Chwefror 2021, cynhaliodd y Panel asesiad interim o'r cynnydd yr oedd y Bwrdd lechyd wedi'i wneud yn ystod y chwe mis blaenorol. Daeth i'r casgliad nad oedd unrhyw arwyddion amlwg o gymryd cam yn ôl. Ond, er bod rhywfaint o dystiolaeth bod camau bach wedi cael eu cymryd, nid fu cymaint o gynnydd amlwg ag y bu mewn cyfnodau adrodd blaenorol. Ar yr un pryd nid oedd rhai o'r datblygiadau yn y rhaglen wella, y disgwyliid iddynt fod wedi cael eu cyflawni erbyn hynny, wedi cael eu cyflwyno. Nid oedd hyn yn annisgwyl o ystyried cyd-destun gwaith y Bwrdd lechyd ar y pryd.

Roedd y Panel hefyd yn ymwybodol bod y broses o baratoi at gyhoeddi adroddiadau cynnydd rheolaidd y Panel, ac o ymateb iddynt, yn rhoi pwysau sylweddol ar adnoddau'r Bwrdd Iechyd, ac y byddai hyn wedi bod yn faich ychwanegol ar adeg pan oedd eisoes yn gweithredu o dan bwysau sylweddol.

Ar sail hynny, ym mis Mawrth 2021, ysgrifennodd y Panel at y Gweinidog ar y pryd yn awgrymu y dylid gohirio cyhoeddi'r adroddiad cynnydd nesaf am chwe mis, tan ddiwedd mis Medi 2021. Roedd y Gweinidog yn cefnogi cynnig y Panel, a gwnaeth ddatganiad i'r Senedd i'r perwyl hwnnw ar 22 Mawrth 2021. Gallwch weld copi [yma](#) o ddatganiad y Gweinidog.

Wrth gyflwyno'r achos dros ohirio'r adroddiad cynnydd, llwyddodd y Panel i sicrhau'r Gweinidog bod y gwasanaeth mamolaeth wedi 'cadw ei ben uwchben y dŵr', er gwaethaf yr amgylchiadau heriol y bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ynddynt. Gellid dweud yn bendant bron na fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb y gwelliannau i systemau a phrosesau, a'r newidiadau i arddulliau arwain ac yn niwylliant y gweithlu sydd wedi cael eu cyflawni yn ystod y ddwy flynedd ers adroddiad y Colegau Brenhinol. Yn benodol, ni fu unrhyw arwyddion o gymryd cam yn ôl mewn unrhyw un o'r dangosyddion perfformiad allweddol (ac eithrio absenoldeb salwch), ac roedd lefelau staffio diogel wedi cael eu cynnal.

Roedd y Panel hefyd yn falch o ddweud bod y gwasanaeth mamolaeth wedi dangos arloesedd a chreadigrwydd a oedd i'w ganmol wrth ymateb i oblygiadau COVID-19, yn enwedig o ran y ffordd roedd wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol a mathau eraill o dechnoleg o bell i ymgysylltu â menywod a theluloedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac i'w cynnwys yn y gwaith o sicrhau gwelliannau ar y cyd i'r gwasanaeth.

Mae Adran 3 yr adroddiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y cynnydd a wnaed o ran ymgysylltu â menywod a theluloedd yn ystod cyfnod COVID-19.

Ym mis Ebrill 2021, wrth i effaith uniongyrchol ail don COVID-19 ddechrau lleihau, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng y Panel ac uwch aelodau'r Bwrdd Iechyd, er mwyn ailedrych ar y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol a rhoi ffocws newydd iddi. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi cyfres o fesurau ar waith i adfywio'r rhaglen, ac i adennill y momentwm sydd wedi cael ei golli yn ystod y cyfnod blaenorol.

Mae Adran 2 yr adroddiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y datblygiadau hyn yn y rhaglen, a'u heffaith.

1.3 YMATEB Y PANEL

Er eu bod yn bitw o'u cymharu â'r rheini y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u hwynebu, mae'r Panel hefyd wedi wynebu ei heriau ei hun o ganlyniad i COVID-19, yn enwedig yr effaith y mae'r cyfyngiadau ar deithio a chyswllt cymdeithasol wedi'i chael ar allu'r Panel i gasglu ac asesu tystiolaeth o welliant.

Mae'r Panel wedi parhau i oruchwyllo'r rhaglen wella drwy gydol cyfnod COVID-19, ac mae wedi gwneud defnydd da o ddulliau gweithio o bell i gyflawni hynny. Fodd bynnag, bu'n rhaid i'r rhan fwyaf o'r gwaith asesu sydd wedi cael ei wneud dros y 18 mis diwethaf gael ei wneud ar-lein.

Am y rheswm hwnnw, mae wedi bod yn anodd asesu tystiolaeth o welliant mewn ffordd gadarn a thrylwyr oherwydd prin fu'r cyfle i gwrdd â staff wyneb yn wyneb, ac ni fu cyfle i ymweld â'r ysbytai tan yn ddiweddar iawn er mwyn asesu a yw'r gwelliannau sydd wedi'u cyflawni ar bapur yn rhan annatod o'r ymarfer o ddydd i ddydd.

Nid yw rheoleiddwyr y Bwrdd Iechyd na chyrrff adolygu eraill wedi gwneud rhyw lawer o waith arolygu ar y safle chwaith ac mae hynny, unwaith eto, wedi cyfyngu ar y cyfle i'r Panel driongli ei asesiadau yn erbyn y dystiolaeth a gasglwyd gan eraill, fel sydd wedi digwydd o'r blaen. Mae hyn wedi cael ei ddatrys i raddau helaeth erbyn hyn gan raglen o ymweliadau sicrwydd ar y safle a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2021, ac wrth i'r Panel arsylwi cylch cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd yn systematig (edrychwch ar Adran 2 i gael rhagor o wybodaeth). Ond, mae wedi golygu bod y dasg o fesur cynnydd y Bwrdd Iechyd wedi bod yn anoddach nag yr oedd cyn dechrau COVID-19.

Yn y cyd-destun hwnnw, dros y 12 mis diwethaf mae'r Panel wedi canolbwyntio mwy a mwy ar wasanaethau newyddenedigol y Bwrdd Iechyd, gan fod y themâu a oedd yn dod i'r amlwg yn y Rhaglen Adolygiadau Clinigol yn awgrymu bod angen gwneud gwaith pellach, mwy penodol i wella elfennau o'r gwasanaeth newyddenedigol, a'i integreiddio'n fwy di-dor â'r gwasanaeth mamolaeth er budd defnyddwyr y gwasanaeth.

Nid oedd y Bwrdd Iechyd chwaith yn gallu cael y sicrwydd angenrheidiol ynghylch ansawdd a diogelwch ei wasanaethau newyddenedigol. Ar sail hynny, gwnaeth y Panel argymhelliad i'r Gweinidog ym mis Mawrth 2021 – gyda chefnogaeth frwd y Bwrdd Iechyd – y dylid canolbwyntio mwy ar wasanaethau newyddenedigol yn y broses oruchwyllo.

Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad, a chomisiynodd adolygiad manwl i asesu ansawdd a diogelwch y gwasanaeth newyddenedigol presennol sy'n cael ei ddarparu gan y Bwrdd Iechyd. Pwrpas yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol, fel y mae'n cael ei alw erbyn hyn, yw rhoi sicrwydd bod y gwasanaeth newyddenedigol presennol yn ddiogel ac yn addas i'r diben, ac os na ellir rhoi'r sicrwydd hwnnw, nodi elfennau lle mae angen gwneud gwelliannau pellach.

Ar yr un pryd, roedd y Gweinidog hefyd wedi penodi dau arbenigwr ar faterion newyddenedigol i ddarparu'r capasiti ychwanegol a'r wybodaeth broffesiynol arbenigol i'r Panel, er mwyn ehangu ei rôl oruchwyllo. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn natganiad y Gweinidog i'r Senedd ar 22 Mawrth 2021, sydd ar gael [yma](#).

Roedd yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol wedi dechrau bwrw iddi'n frwd ym mis Mai 2021, ac mae disgwyl i'r tîm roi adroddiad ar ei ganfyddiadau tua diwedd 2021. Fodd bynnag, mae pryderon cynnar ynghylch diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth wedi cael eu nodi, ac mae'r rheini wedi cael eu

huwchgyfeirio at y Bwrdd Iechyd. Y prif faterion a nodwyd yw presgripsiynu diogel, penderfyniadau clinigol, safonau dogfennu, ac integreiddio'r gwasanaethau newyddenedigol â gwasanaethau mamolaeth.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi croesawu adborth y Panel, ac mae rhywfaint o gamau gwella brys wedi cael eu rhoi ar waith, sy'n cael eu monitro'n agos gan Dîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd, y Panel a swyddogion Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Ddatganiad Ysgrifenedig ar 7 Medi 2021, sy'n rhoi rhagor o fanylion am y materion a nodwyd a'r camau brys a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw. Gellir gweld y datganiad [yma](#).

Mae Adran 4 yr adroddiad yn cynnwys eglurhad manylach o gefndir a phwrpas yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol, ynghyd â rhagor o wybodaeth am uwchgyfeirio pryderon am ddiogelwch ac effeithiolrwydd.

Mae penodi aelodau ychwanegol wedi rhoi cyfle i'r Panel adolygu a diweddarau ei ffyrdd o weithio. Mae hyn wedi cynnwys mynd ati gyda 'llygaid newydd' i ailasesu rhai o'r argymhellion sydd wedi cael eu dilysu fel argymhellion sydd wedi'u cyflawni, i sicrhau cynnydd parhaus a bod y camau sydd wedi cael eu cymryd yn dal yn rhan annatod o'r ymarfer gweithredol.

Yn y cyfamser mae'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol, sy'n edrych yn ôl ar y gofal mamolaeth a newyddenedigol a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd rhwng 1 Ionawr 2016 a 30 Medi 2018, wedi parhau drwy gydol y cyfnod adrodd diwethaf. Mae cynnydd da wedi cael ei wneud, er bod pethau wedi arafu rhywfaint oherwydd ymrwymadau clinigol aelodau'r tîm adolygu fel rhan o'r ymateb i COVID-19.

Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn mae'r Panel yn cyhoeddi ei ail adroddiad thematig, sy'n ystyried y gofal a roddwyd i famau a'u babanod a oedd, gwaetha'r modd, wedi'u geni'n farw. Mae copi o'r adroddiad thematig ar gael [yma](#).


Mae Adran 5 yr adroddiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth gyffredinol am y Rhaglen Adolygiadau Clinigol, gan gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol.

2 ASESU CYNNYDD Y BWRDD IECHYD

I baratoi ar gyfer cyhoeddi Adroddiad Cynnydd Medi 2021, mae'r Panel wedi casglu a gwerthuso gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn darparu asesiad gwrthrychol o'r cynnydd roedd y Bwrdd Iechyd wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf, ac yn fwy cyffredinol dros y ddwy flynedd a hanner ers i adroddiad y Colegau Brenhinol gael ei gyhoeddi.

Mae'r diagram yn Ffigur 1 yn rhoi manylion y prif ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd fel sail i asesiad y Panel. Mae rhai o'r elfennau unigol hyn yn cael eu trafod ymhellach yng ngweddill yr adran hon.

Ffigur 1: Methodoleg y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth (IMSOP) ar gyfer Asesu'r Cynnydd



2.1 DATBLYGIADAU DIWEDDAR YN Y RHAGLEN WELLA

Ym mis Ebrill 2021, wrth i effaith uniongyrchol ail don COVID-19 ddechrau cilio, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng y Panel, Uwch-swyddogion Cyfrifol ac aelodau eraill o'r Bwrdd Iechyd er mwyn ailedrych ar y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol a rhoi ffocws newydd iddi wrth symud ymlaen.

Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi cyfres o fesurau ar waith i adfywio'r rhaglen wella, er mwyn adennill y momentwm sydd wedi cael ei golli yn ystod cyfnod COVID-19. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:-

- penodi Cyfarwyddwr Rhaglen penodol sydd â phrofiad sylweddol o reoli rhaglenni newid a diwygio gwasanaethau ar raddfa fawr;

- datblygu methodoleg fwy cadarn ar gyfer rheoli rhaglenni sy'n rhoi pwyslais cliriach ar ganlyniadau, yr elfennau allweddol i'w cyflawni ac amserlenni;
- proses ddiwygiedig ar gyfer adolygu tystiolaeth, a ddyluniwyd i sicrhau bod y dystiolaeth sy'n dangos bod argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael eu cyflawni yn cael ei chofnodi, ei dadansoddi a'i herio, cyn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol a'r Panel i gael ei chymeradwyo;
- gwell trefniadau monitro a goruchwyllo mewnol, drwy roi bywyd newydd i'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol a Phwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd;
- cynllunio a chyflawni llawer o sylfeini allweddol camau nesaf y broses wella (gan gynnwys cynllun gweithredu, cynllun cerrig milltir wedi'i ddiwygio gydag elfennau allweddol i'w cyflawni ac amserlenni cliriach, a chynlluniau i ddatblygu gweledigaeth bum mlynedd ar gyfer dyfodol gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol);
- cyfuno gweddill argymhellion y Colegau Brenhinol mewn cyfres o 'becynnau gwaith' manwl, sy'n sail i'r cynllun cerrig milltir a'r cynllun gweithredu sy'n arwain at ddatblygu'r weledigaeth bum mlynedd;
- cynlluniau newydd i adfer y rhaglenni newid diwylliant, cyfathrebu ac arweinyddiaeth a ohiriwyd o ganlyniad i COVID-19;
- integreiddio'n agosach â rhaglen datblygu corfforaethol y Bwrdd Iechyd, a sicrhau gwell cysondeb â'r fframwaith asesu sydd wedi cael ei ddatblygu i gefnogi'r Rhaglen Ymyriadau wedi'u Targedu.

Cafwyd datblygiadau calonogol mewn meysydd eraill hefyd, y tu hwnt i'r trefniadau rheoli rhaglenni. Er enghraifft:

- mae nifer o swyddi arweinyddiaeth feddygol allweddol, sydd wedi bod yn wag ers tro, wedi cael eu llenwi;
- mae cynllun realistig wedi cael ei ddatblygu, gyda chefnogaeth Uned Gyflawni'r GIG (Cymru), i gwblhau'r gwaith sydd wedi cronni yn yr ymchwiliad i ddiwyddiadau difrifol ers 2018.

Nid yw'r holl ddatblygiadau hyn wedi cael eu rhoi ar waith eto; mae rhai ohonynt yn dal yn waith ar y gweill, ac mae eraill yn y camau cynllunio. Fodd bynnag, mae llawer iawn o gynnydd wedi cael ei wneud mewn cyfnod cymharol fyr, a gyda'i gilydd mae'r datblygiadau hyn wedi dod â momentwm newydd a theimlad gwahanol i'r rhaglen wella nag a oedd yn bodoli 12 mis neu hyd yn oed 6 mis ynghynt.

O ganlyniad, mae'r Panel yn credu bod Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth y Bwrdd Iechyd 'yn ôl ar y trywydd iawn' erbyn hyn, ar ôl colli ffocws a momentwm dros y 12 mis blaenorol.

Mae'n bwysig cofio bod COVID-19 yn dal yn broblem fyw iawn. Yn wir, wrth i'r Panel gwblhau'r gwaith o ddrafftio'r adroddiad hwn, roedd y Bwrdd Iechyd yn gorfod ailsefydlu ei drefniadau gorchymyn a rheoli gan fod y lefelau trosglwyddo yn y gymuned yn cynyddu.

Amser a ddengys a oes modd cynnal ac adeiladu ar y momentwm cynyddol sydd wedi dod i'r amlwg dros y chwe mis diwethaf. Fodd bynnag, am y tro, mae'r Panel yn credu bod rheswm dros deimlo hyder pwyllog.

2.2 CYFLAWNI ARGYMHELLION Y COLEGAU BRENHINOL

Un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar gynnydd y Bwrdd Iechyd yw i ba raddau y mae wedi cyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol, ac yn parhau i'w cyflawni.

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Medi 2020, roedd cyfanswm o 50 o'r 70 o argymhellion a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwasanaeth mamolaeth wedi cael eu cyflawni, ac roedd 20 yn dal yn waith ar y gweill. Roedd llawer o'r argymhellion a oedd heb gael eu cyflawni yn ymwneud â materion tymor hwy – fel newid y diwylliant a datblygu arweinwyr – a fydd yn cymryd amser i'w gweithredu, a hyd yn oed mwy o amser i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir o ran newid agweddau ac ymddygiad.

Dyweddodd y Panel ar y pryd nad oedd y broses o ddilysu bod y garfan flaenorol o gamau gweithredu wedi cael eu cyflawni yn broses mor gadarn ag y bu yn y cyfnodau adrodd blaenorol, oherwydd cyfyngiadau o ganlyniad i COVID-19. Yn sgil hynny, yn ystod y cyfnod adrodd hwn bu'n rhaid i'r Panel ailedrych ar nifer sylweddol o'r camau gweithredu sydd wedi cael eu dilysu'n barod i sicrhau eu bod wedi dod yn rhan annatod o'r ymarfer gweithredol, a'u bod yn dal yn rhan annatod o hynny. Mae Adran 2.4 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y broses o ailedrych ar yr argymhellion hyn.

Un o'r darnau mwy sylweddol o waith sydd wedi cael ei wneud gan y Bwrdd Iechyd dros y chwe mis diwethaf yw'r adolygiad o'i broses adolygu tystiolaeth, er mwyn darparu system fwy cadarn ac effeithlon i gymeradwyo gweddill argymhellion y Colegau Brenhinol fel rhai sydd wedi cael eu cyflawni.

Egwyddor y broses ddiwygiedig ar gyfer adolygu tystiolaeth yw mai'r Bwrdd Iechyd sydd bellach yn bennaf gyfrifol am sicrwydd y dystiolaeth; mae'n gosod y cyfrifoldeb dros gasglu, adolygu ac asesu'r dystiolaeth sydd ar gael ar ysgwyddau'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol. Mae'r dull gweithredu yma'n hybu hunanystyriaeth a dadansoddiad beirniadol, ac mae'r Panel yn croesawu hynny.

Rôl y Panel yn y broses wedyn yw adolygu penderfyniad y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, ac asesu'r dystiolaeth a'r wybodaeth a oedd yn sail i'r penderfyniad. Ar ôl gwneud hynny, bydd y Panel naill ai'n dilysu penderfyniad y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ac yn cadarnhau bod yr argymhelliad wedi'i gyflawni, neu os nad yw'n gallu gwneud hynny, bydd yn darparu crynodeb o'r dystiolaeth a'r wybodaeth ychwanegol y mae'n credu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu cadarnhau'r penderfyniad.

Gyda chymorth y broses newydd o adolygu tystiolaeth, mae'r Panel wedi cytuno bod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau cymeradwyo pump arall o argymhellion y Colegau Brenhinol (argymhellion 7.39, 7.42, 7.53, 7.54 a 7.69) fel rhai sydd wedi cael eu cyflawni'n llawn yn y gwasanaethau mamolaeth. Mae hynny'n golygu bod cyfanswm o 55 o argymhellion wedi cael eu cyflawni. Felly, mae bron i bedwar o bob pump (79%) o'r 70 o argymhellion wedi cael eu cyflawni erbyn hyn.

Mae *Atodiad A* yn cynnwys manylion y pum argymhelliad ychwanegol sydd wedi'u cymeradwyo fel rhai sydd wedi cael eu cyflawni.

Er bod nifer terfynol yr argymhellion sydd wedi cael eu cymeradwyo yn ystod y 12 mis diwethaf yn gymharol fach o'i gymharu â'r niferoedd a gafodd eu cymeradwyo mewn cyfnodau blaenorol, nid yw hynny'n annisgwyl, am y rhesymau a esboniwyd yn Adran 1.1.

Mae hefyd yn bwysig pwysleisio bod rhai o'r argymhellion sydd wedi cael eu cyflawni yn ystod y cyfnod hwn yn eithaf arwyddocaol o ran y daith wella gyffredinol. Er enghraifft:-

- mae cyflawni argymhelliad **7.54** yn adlewyrchu'r newid sylfaenol y mae'r Bwrdd lechyd wedi'i wneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn y ffordd mae'n mynd ati'n gyffredinol i **ymgysylltu â'r menywod a'r teuluoedd** sy'n defnyddio ei wasanaethau mamolaeth, a'u cynnwys yn y gwaith o greu gwasanaethau ar y cyd (edrychwch ar Adran 3 i gael rhagor o fanylion);
- mae cyflawni argymhelliad **7.53** yn adlewyrchu'r buddsoddiad sylweddol y mae'r Bwrdd lechyd wedi'i wneud dros y 18 mis diwethaf i wella ei **allu i ymgysylltu a chyfathrebu'n gorfforaethol**.

Mae'r broses adolygu tystiolaeth yn un barhaus. Mae'r Bwrdd lechyd eisoes wedi cael adborth manwl ar dri argymhelliad arall y mae'r Panel yn credu y byddant wedi cael eu cyflawni'n llawn ac yn barod i'w cymeradwyo yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

2.3 FFYRDD NEWYDD O ASESU GWELLIANNAU

Wrth i nifer yr argymhellion sydd eto i'w cyflawni leihau, mae'r Panel wedi bod yn chwilio am ffyrdd newydd o asesu a yw'r argymhellion sydd wedi cael eu cyflawni hyd yma wedi dod yn rhan annatod o'r ymarfer, ac a ydyn nhw wedi arwain at y canlyniadau gwell yr oedd y Colegau Brenhinol yn galw amdanynt.

Ers dechrau COVID-19, mae mwy a mwy o gyfarfodydd y Bwrdd lechyd wedi cael eu cynnal o bell gan ddefnyddio cyfleusterau fideogynadledda. Mae hyn wedi galluogi'r Panel i fynd i ystod o gyfarfodydd gweithredol i arsylwi'r ffordd mae'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn gweithredu o ddydd i ddydd. Mae hefyd wedi rhoi mwy o gyfleoedd i'r Panel asesu'r ffordd y mae'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Bwrdd yn herio ac yn craffu ar y gwaith o gyflawni'r rhaglen wella.

Mae dull systematig wedi cael ei fabwysiadu, ac mae hyn wedi rhoi cyfle i'r Panel arsylwi'r gwaith o reoli a goruchwyllo'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol a'r rhaglen wella 'o'r Bwrdd i'r Lefel Isaf'.

Er bod rhywfaint o gyfleoedd i wella wedi cael eu nodi a'u rhannu, yn gyffredinol, mae'r Panel wedi cael sicrwydd rhesymol, o ran y gwasanaeth mamolaeth, bod y systemau a'r prosesau sydd wedi cael eu rhoi ar waith dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf yn cyfrannu fwy a mwy at ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol lle mai anghenion menywod, eu babanod a'u teuluoedd yw'r peth pwysicaf ym meddwl y Bwrdd Iechyd.

Er enghraifft, yn ystod yr misoedd diwethaf, mae'r Panel wedi arsylwi'r cyfarfodydd hyn, ac wedi rhoi'r adborth canlynol i'r Bwrdd Iechyd:-

- **Y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol (Mehfin 2021)** – *'Roedd y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yn drefnus, wedi'i gadeirio'n dda ac yn cael ei reoli'n effeithiol, gyda chynrychiolaeth amlddisgyblaethol ar lefel weithredol ac uwch. Roedd yno awyryglch cadarnhaol, ac ymdeimlad o ymdrechu ar y cyd. Roedd yr agenda wedi'i strwythuro'n dda, ac yn canolbwyntio'n glir ar y prif faterion yr oedd angen eu trafod. Roedd yn galonogol gweld cysylltiad cryf rhwng yr agenda a'r materion sydd wedi cael eu codi gan y Panel yn ystod y misoedd diwethaf.'*
- **Cyfarfod y Bwrdd Iechyd (Gorffennaf 2021)** – *'O'i gymharu â [chyfarfod Bwrdd blaenorol a gafodd ei arsylwi], roedd pethau wedi gwella'n sylweddol o ran lefel ac ansawdd y gwaith craffu a herio gan Aelodau Annibynnol mewn perthynas â'r eitem gwella gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Roedd pum Aelod Annibynnol gwahanol wedi gofyn cwestiwn neu wneud sylwadau a oedd yn berthnasol, ac yn dangos lefel dda o ddealltwriaeth o'r materion a'r risgiau y mae'r Bwrdd Iechyd yn delio â nhw yn y maes hwn. Yn ymyriadau'r Aelodau Annibynnol, roedd thema glir a oedd yn ymwneud â buddiannau menywod a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau, ac roedd y swyddogion wedi ymateb yn agored ac yn adeiladol i'r cwestiynau a'r sylwadau a gafwyd.'*
- **Cyfarfod y Gweithlu, Effeithiolrwydd, Diogelwch a Phrofiad ac Ymgysylltu (Mehfin 2021)** – *'Roedd y trafodaethau a gynhaliwyd yn dangos ffordd ragweithiol a chadarn o fynd i'r afael ag absenoldeb oherwydd salwch a sicrhau cydymffurfiaeth [er enghraifft, mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol], ond roedd yn ymddangos bod cydbwysedd rhwng hyn a chonsyrn gwirioneddol tuag at staff a'u llesiant. Cafodd unrhyw fylchau yn y data eu cydnabod a'u trafod, a chafodd camau gweithredu eu nodi'n briodol i fynd i'r afael â'r bylchau.'*
- **Y Grŵp Canllawiau Mamolaeth (Mehfin 2021)** – *'Roedd presenoldeb da yng nghyfarfod y grŵp canllawiau mamolaeth, a chafwyd cyfraniad amlddisgyblaethol ar lefel uwch gan Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae cynllun hirdymor clir ar waith i sicrhau bod y canllawiau'n parhau'n gyfredol, a'u bod yn cael eu hadolygu a'u hadnewyddu'n rheolaidd ar adegau priodol. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut byddai'r canllawiau a oedd wedi'u cymeradwyo yn ystod y cyfarfod yn cael eu dosbarthu, a chytunwyd ar gamau gweithredu a chyfrifoldeb clir ar gyfer hynny.'*

Y pwrpas wrth dynnu sylw at yr agwedd hon ar waith sicrwydd y Panel yw dangos, er y bu llai o gynnydd o ran cyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol yn ystod y 12 mis diwethaf o'i gymharu â chyfnodau blaenorol, bod arsylwi cylch cyfarfodydd y Bwrdd lechyd wedi rhoi sicrwydd i'r Panel bod y systemau a'r prosesau a roddwyd ar waith yng nghamau cynnar y rhaglen wella bellach yn dod yn rhan annatod o'r ymarfer, ac yn cyflawni'r gwelliannau yr oedd y Colegau Brenhinol yn galw amdanynt.

2.4 YMWELIAD SICRWYDD Y PANEL – 19/20/21 GORFFENAF 2021

Ym mis Gorffennaf 2021, treuliodd y Panel dri diwrnod yn olynol yn y Bwrdd lechyd, yn adolygu'r cynnydd ac yn chwilio am dystiolaeth bod y gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud ers adolygiad y Colegau Brenhinol yn dal yn rhan annatod o'r ymarfer, ac yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd a diogelwch y gofal sy'n cael ei ddarparu i fenywod a'u babanod.

Roedd rhai aelodau o'r Panel yn bresennol yn gorfforol am ran o'r cyfnod hwnnw, ac roedd eraill wedi ymuno o bell oherwydd eu bod yn methu teithio yn sgil y cyfraddau trosglwyddo COVID-19 yn lleol. Roedd tîm yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol hefyd wedi cymryd rhan ar-lein, fel rhan o waith y tîm i gasglu ac asesu tystiolaeth.

Ymwelodd y Panel â'r unedau mamolaeth a newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac yn Ysbyty Tywysoges Cymru,¹ gan gwrdd â staff rheng flaen, goruchwylwyr a rheolwyr. Roedd hefyd wedi cwrdd ag aelodau o'r Tîm Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, gan gynnwys arweinwyr ffrydiau gwaith, cyfarwyddwyr gwella, Uwch-swyddogion Cyfrifol, ac aelodau'r Bwrdd sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r rhaglen.

Bu'r Panel yn cymryd rhan mewn rhaglen strwythuredig o weithgareddau a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws staff, cyfweiliadau un i un ac ymweliadau â wardiau. Roedd hefyd wedi arsylwi gweithgareddau gweithredol, gan gynnwys trosglwyddo a sesiynau briffio tîm. Manteisiwyd hefyd ar y cyfle i gadarnhau yn y fan a'r lle bod pethau yr oedd y Panel wedi cael sicrwydd yn eu cylch o'r blaen wedi cael eu rhoi ar waith – er enghraifft, bod canllawiau clinigol ac archwiliadau offer rheolaidd yn cael eu defnyddio'n ymarferol. Er nad oedd modd cwrdd â defnyddwyr gwasanaeth, fe wnaeth y Panel achub ar y cyfle i fesur i ba raddau yr oedd gwaith ymgysylltu'r Bwrdd lechyd yn gwneud gwahaniaeth i brofiadau menywod a theuluoedd.

Dyma oedd y cyfle cyntaf i ymweld â'r ysbytai ac i gwrdd wyneb yn wyneb â staff ers dechrau'r ymateb i COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Felly, roedd yn gyfle gwerthfawr i wneud y Panel yn weladwy unwaith eto, ac i fesur i ba raddau yr oedd staff yn ymwneud â'r broses wella ac yn ymrwmo iddi.

¹ Cafodd yr ymweliad ag Ysbyty Tywysoges Cymru ei gynnal ar-lein er mwyn osgoi'r risg o drosglwyddo COVID-19 rhwng y ddau safle.

Roedd gwaith sicrwydd manylach y Panel yn canolbwyntio'n benodol ar 21 o argymhellion unigol, a ddewiswyd am un o dri rheswm, sef:-

- (i) roedden nhw wedi cael eu cymeradwyo yn ystod y 12 mis blaenorol, ac ni fu cyfle cyn hynny i driongli'r dystiolaeth ac i gael sicrwydd bod y gwelliannau a wnaed wedi dod yn rhan annatod o'r ymarfer;
- (ii) roedden nhw wedi cael eu nodi o'r blaen fel rhai y mae angen eu monitro'n barhaus;
- (iii) roedd cwestiynau wedi codi am effaith y broses adolygu digwyddiadau difrifol, naill ai o ganlyniad i'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol neu o ganlyniad i effaith COVID-19, ac roedd yn ymddangos yn synhwyrol gwneud rhagor o waith dilysu.

Cafodd y dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y tri diwrnod eu cyd-grynhoi, a chynhaliodd y Panel weithdy ar 9 Awst 2021 i ddod i gasgliadau yn dilyn yr ymweliad. Cafodd rhywfaint o fanion gweithredol eu nodi a'u rhannu â'r Bwrdd lechyd er mwyn cymryd camau pellach. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw syndod na phryderon mawr, ac ar y cyfan roedd y Panel yn teimlo bod y gwasanaeth mamolaeth wedi gwneud cynnydd graddol yn ystod y 12 mis blaenorol.

Yn ôl y disgwyl, mae'r cynnydd wedi bod yn arafach nag y byddai'r Panel wedi'i obeithio, oherwydd effaith COVID-19. Cymerwyd cam yn ôl mewn rhai meysydd, ond yn yr achosion hynny, mae'r rhesymau dros hynny'n amlwg ac mae cynlluniau a llwybrau ar waith i adennill y tir a gollwyd. Yn benodol, cafodd y Panel sicrwydd bod:-

- canllawiau, protocolau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau yn unol â'r safonau cenedlaethol, a'u bod bellach ar gael yn rhwydd i'r holl staff;
- meddygon ymgynghorol yn bresennol yn amlach, bod y trefniadau ar alwad wedi cael eu cryfhau, a bod rhestrau trothwyon wedi cael eu datblygu i sicrhau ymatebion priodol i risg sy'n cynyddu;
- rhaglen archwiliadau clinigol aml-ddisgyblaethol wedi cael ei rhoi ar waith, a'i bod yn cael cefnogaeth gan system monitro cydymffurfiaeth a gydnabyddir yn genedlaethol ac y mae'n bosibl cael gafael arni ar y pryd o lefel 'Ward i'r Bwrdd';
- fframwaith llywodraethu clinigol diwygiedig wedi cael ei sefydlu, ac yn cael ei roi ar waith yn ymarferol er mwyn gallu rheoli materion diogelwch ac ansawdd yn well;
- trefniadau i rannu'r hyn a ddysgwyd yn dilyn digwyddiadau wedi cael eu cryfhau, gyda digwyddiadau dysgu thematig yn cael eu cynnal gan y timau mamolaeth a newyddenedigol;
- rhaglenni hyfforddiant gorfodol a gynlluniwyd yn genedlaethol wedi cael eu darparu ar gyfer staff nyrsio a staff meddygol, ac er bod COVID-19 wedi effeithio ar y rhain, bod llwybrau realistig ar waith i'w rhoi'n ôl ar y trywydd iawn;
- Hyfforddiant Aml-broffesiynol Ymarferol mewn Obstetreg wedi cael ei ddarparu mewn ysbytai ac yn y gymuned, a bod y targed cenedlaethol o 95% ar gyfer cydymffurfio wedi cael ei basio'n barod;
- rhaglen helaeth o ddigwyddiadau a dulliau gweithredu eraill wedi cael eu datblygu er mwyn ymgysylltu'n well â menywod, a dysgu o'u profiadau;

- fforwm 'My Maternity, My Way' wedi dod i'r amlwg fel dull effeithiol o wrando ar leisiau menywod, a'u cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau wrth symud ymlaen.

Ar sail y tri diwrnod a dreuliwyd yn ymweld â'r Bwrdd Iechyd, daeth y Panel i'r casgliad, er bod gwaith i'w wneud o hyd, bod y gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud yn y gwasanaeth mamolaeth dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf wedi cael eu hatgyfnerthu i raddau helaeth, a'u bod yn dal yn rhan annatod o'r ymarfer gweithredol.

Nid oedd y Panel wedi dod i unrhyw gasgliadau pendant am y cynnydd ar elfennau newyddenedigol y cynllun gwella, oherwydd mae gwaith yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol yn dal i fynd rhagddo. Fodd bynnag, cafodd rhywfaint o bryderon eu nodi. Maen nhw'n cael eu trafod ymhellach yn Adran 4 yr adroddiad, a rhoddir adroddiad llawn arnynt ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.

Er bod teimlad cyffredinol bod y gwasanaeth mamolaeth wedi gwneud cynnydd, daeth y Panel i'r casgliad bod angen i 10 o argymhellion y Colegau Brenhinol gael eu monitro'n barhaus. Felly, bydd angen eu hailasesu eto ymhen chwe mis. Roedd y rheswm dros hynny'n tueddu i berthyn i un o dri chategori eang:-

- (i) mae angen arweinyddiaeth feddygol ar eu cyfer, ac mae angen i'r rheini a benodwyd yn ddiweddar i swyddi arweinyddiaeth feddygol allweddol gael amser i ymgyfarwyddo â'u swydd;
- (ii) maen nhw'n ymwneud â materion y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt, ac mae angen gwneud rhywfaint o waith adfer i'w rhoi'n ôl ar y trywydd iawn;
- (iii) maen nhw'n ymwneud â gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd – er enghraifft, y gwaith sy'n cael ei wneud gyda chymorth Uned Gyflawni'r GIG (Cymru) i gryfhau ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol.

Mae *Atodiad B* yn cynnwys manylion y 10 argymhelliad y mae angen parhau i'w monitro. Bydd y Panel yn ailasesu'r cynnydd a wnaed ar yr argymhellion hyn dros y chwe mis nesaf, ac yn rhoi adroddiad pellach ym mis Mawrth 2022.

Yn ogystal â rhoi cyfle i asesu cynnydd y gwasanaethau mamolaeth i gyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol, roedd yr ymweliad sicrwydd hefyd yn gyfle i'r Panel ddod i gasgliadau ehangach am y broses wella, a gafodd eu rhannu â'r Bwrdd Iechyd ar ddiwedd yr ymweliad. Gellir crynhoi'r casgliadau hyn fel a ganlyn:-

- er bod staff yn amlwg wedi blino ac yn gweithio o dan bwysau gweithredol sylweddol, roedd eu hagwedd yn gadarnhaol ar y cyfan;
- er y pwysau hynny, roedd ymdeimlad cryf o ymrwymiad ar bob lefel a phwyslais gwirioneddol ar anghenion defnyddwyr gwasanaeth;
- roedd teimlad o hyder pwylllog, yn enwedig ymysg rheolwyr, arbenigwyr a'r rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r rhaglen wella;
- er ei bod yn amlwg bod yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma yn destun balchder, mae ymdeimlad o realaeth hefyd ynghylch faint sydd eto i'w wneud;
- roedd mwy o deimlad o fod yn agored ac yn dryloyw, ac roedd y staff yr un mor barod i siarad am y problemau yr oeddent yn eu hwynebu yn ogystal â'u llwyddiannau;

- roedd mwy o deimlad o gyfeiriad ar y cyd nag o'r blaen, gyda staff allweddol yn gallu cyfleu cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn gliriach.

O fewn y sefyllfa honno a oedd yn addawol ar y cyfan, roedd y Panel wedi nodi rhai elfennau y mae angen i'r Bwrdd lechyd hoelio'i sylw arnynt yn y dyfodol, sef y canlynol:-

- er bod newid i'r model gweithredu Grŵp Ardal Integredig yn ddatblygiad cadarnhaol oherwydd ei fod wedi dod â'r gwasanaeth mamolaeth a newyddenedigol at ei gilydd o dan yr un gyfarwyddiaeth, mae'n edrych yn debyg bod rhai tensiynau cynnar y mae angen eu datrys, yn enwedig mewn perthynas â rheoli risg, cau ymchwiliadau i ddiwyddiadau difrifol, a rheoli cwynion a phryderon;
- yn benodol, nid oedd y Panel yn gallu dod i gasgliadau pendant ynghylch i ba raddau y mae'r model gweithredu Grŵp Ardal Integredig yn gweithio'n effeithiol gyda'r mesurau arbennig a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, a bydd angen ymchwilio ymhellach i hyn yn ystod yr wythnosau nesaf;
- mae'r uwch benodiadau meddygol diweddar yn gyfle gwirioneddol i gynyddu cysylltiad a pherchnogaeth feddygol yn y broses wella, ond mae hyn yn gofyn am ymdrech ar y cyd ac arweinyddiaeth gref;
- cafodd yr angen i sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn cael eu hintegreiddio'n well ei atgyfnerthu ymhellach wrth arsylwi a sgwrsio â'r staff.

Mae'r materion hyn wedi cael eu rhannu â'r Bwrdd lechyd, a byddan nhw'n cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r pecynnau gwaith a fydd yn sail i gamau nesaf y rhaglen wella.

2.5 YMGYSYLLTU Â'R STAFF

Yn ystod yr ymweliad tri diwrnod, cyfarfu'r Panel ag amrywiaeth o staff ar wahanol lefelau ac mewn gwahanol rolau, fel unigolion ac mewn grwpiau ffocws mawr.

Ar y cyfan, roedd y sgysiau'n rhai cadarnhaol. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth amlwg rhwng naws y sgysiau â rheolwyr, arbenigwyr a staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r rhaglen wella, a'r sgysiau â grwpiau ffocws a oedd yn cynnwys staff rheng flaen.

Pryderon am lwyth gwaith, materion staffio a phwysau ar y system oedd yn tueddu i lywio'r sgysiau â staff rheng flaen. Pan ofynnwyd cwestiynau uniongyrchol, roedd ymatebion y staff yn cadarnhau bod gwelliannau wedi cael eu gwneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf o ran y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

Er enghraifft, roedden nhw'n gallu cadarnhau bod y gweithdrefnau uwchgyfeirio wedi gwella, bod meddygon ymgynghorol yn bresennol yn amlach, a'u bod yn gallu cael gafael ar ganllawiau a phrotocolau cyfredol a oedd yn gymorth gyda'u gwaith.

Roedd arwyddion clir hefyd o well ethos tîm, gwell perthynas â rheolwyr a goruchwylwyr rheng flaen, a gwell agweddau at fenywod a theuluoedd. Fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth hon yn cael ei chynnig yn rhwydd, a bu'n rhaid ceisio cael y staff i ddatgelu'r wybodaeth gan bwyll bach, drwy ofyn y cwestiynau iawn.

Nid yw bob amser yn fuddiol llunio casgliadau pendant ar sail sgysiau anffurfiol â nifer cymharol fach o bobl. Fodd bynnag, teimlai'r Panel bod 'diffyg cysylltiad' rhwng y rhaglen wella a'r staff sy'n mynd ati i ddarparu gwasanaethau.

Nid yw hynny'n anarferol ar y cam yma mewn rhaglen newid o'r maint yma. Efallai ei fod hefyd yn ddealladwy o ystyried yr heriau y mae'r staff rheng flaen wedi'u hwynebu yn ystod y 18 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae'n atgyfnerthu pwysigrwydd ymgysylltu'n agosach â staff rheng flaen yn y daith wella, a bod y rhaglenni newid diwylliant, cyfathrebu ac arweinyddiaeth sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn cael eu cyflwyno'n gyflym.

2.6 YMGYSYLLTU Â RHANDEILIAID

Yn ystod mis Gorffennaf 2021 bu'r Panel yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gyda'r nod o driongli ei asesiad cynnydd yn erbyn yr wybodaeth sydd gan gyrff eraill. Roedd hyn yn cynnwys sgysiau â chyrrff rheoleiddio fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Archwilio Cymru, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn ogystal â chyrrff statudol, gan gynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned. Hefyd, cafwyd sgysiau â sefydliadau sy'n darparu cymorth datblygu i'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Oherwydd effaith COVID-19, ni fu llawer o waith arolygu ar y safle mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y Bwrdd Iechyd dros y 18 mis diwethaf. Felly, ni ddaeth unrhyw beth a oedd yn arbennig o arwyddocaol i'r amlwg yn sgil y sgysiau â rhanddeiliaid, o ran tystiolaeth bendant a fyddai'n sail i gasgliadau'r Panel. Yn yr un modd, nid oedd unrhyw beth i awgrymu chwaith nad oedd asesiad y Panel o gynnydd y Bwrdd Iechyd yn rhesymol.

Roedd y Panel wedi nodi bod Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg wedi cyhoeddi'n ddiweddar ganfyddiadau arolwg o brofiadau menywod a theuluoedd a gafodd ofal yng Nghanolfan Eni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2021. Mae copi o'r adroddiad ar gael [yma](#).

Daw'r adroddiad i'r casgliad nad oedd gan y rhan fwyaf o'r menywod a ymatebodd i'r arolwg unrhyw bryderon am eu gofal na'u triniaeth, a rhoddodd nifer ohonynt adborth cadarnhaol ar eu profiad o eni a'r gofal a'r cymorth a gawsant gan y staff. Dyma rai o brif negeseuon eraill yr adroddiad:-

- roedd y rhan fwyaf o'r menywod wedi cael dewis ble y bydden nhw'n geni, er, dim ond 60% gafodd help gan eu bydwagedd i wneud cynllun geni;
- dywedodd y rhan fwyaf o'r menywod fod eu partner geni wedi gallu aros gyda nhw drwy gydol y broses eni. Er, pan ofynnwyd i bartneriaid adael, roedd hyn wedi effeithio ar y profiad geni cyffredinol a gafodd y menywod;

- roedd y rhan fwyaf o'r menywod yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i benderfynu a oedden nhw am fwydo ar y fron ai peidio.

Fel ciplun o brofiadau menywod yn un o leoliadau mamolaeth y Bwrdd lechyd, mae'r canfyddiadau hynny'n galonogol ac yn tueddu i ategu'r wybodaeth o ffynonellau eraill – er enghraifft y cyfryngau cymdeithasol, fforwm 'My Maternity, My Way', yn ogystal â'r ganmoliaeth a gafwyd. Mae hyn yn awgrymu bod nifer sylweddol o fenywod sy'n cael gofal a thriniaeth yn y Bwrdd lechyd yn cael profiad cadarnhaol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Bwrdd lechyd yn sicrhau bod y system Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion, a fydd yn rhoi darlun llawer mwy gwerthfawr o brofiadau menywod ar draws ardal y Bwrdd lechyd, yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd. Mae'r mater hwn yn cael ei drafod ymhellach yn Adran 3.1 yr adroddiad hwn.

Mae'r adborth ar fwydo ar y fron hefyd yn adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd drwy ddulliau eraill o ymgysylltu ynghylch yr angen i fenywod gael mwy o wybodaeth a chymorth er mwyn gwneud dewisiadau. Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud bwydo ar y fron yn flaenoriaeth allweddol, ac mae'n cydgynhyrchu gyda fforwm 'My Maternity, My Way' a gyda menywod a theuluoedd.

2.7 Y CAMAU NESAF – CYNNYDD

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Medi 2020, nododd y 10 'cam nesaf' a fyddai'n rhoi ffocws i'r Bwrdd lechyd yn y cyfnod nesaf.

Roedd y camau hyn i fod i gael eu cwblhau o fewn y chwe mis dilynol, felly mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw wedi cael sylw a'u cwblhau ers tro. Felly, nid yw'r Panel yn bwriadu rhoi rhyw lawer o sylw i'r camau hyn.

Serch hynny, mae *Atodiad E* yn cynnwys crynodeb o'r 'camau nesaf,' a'r camau gweithredu yr oedd y Bwrdd lechyd wedi'u cymryd er mwyn ymateb.

Bydd yr Atodiad yn dangos bod tri cham yn dal yn waith ar y gweill, sef:-

- Cam 3 sy'n ymwneud â datblygu ymhellach y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol;
- Cam 7 sy'n ymwneud â rheoli cwynion a phryderon; a,
- Cam 10 sy'n ymwneud ag ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol.

Mae'r materion hyn yn cael eu trafod yn fanylach yn Adrannau 2, 3 a 5 yr adroddiad.

2.8 ASESIAID PRESENNOL YN ERBYN Y MATRICS AEDDFEDRWYDD

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Medi 2020, daeth i'r casgliad bod y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd² wedi datblygu dros y 12 mis blaenorol, ond y gellid ei gryfhau ymhellach.

Cynhaliwyd gweithdy ym mis Rhagfyr 2020 a oedd yn cynnwys y Panel, y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru, a chytunwyd i wella'r Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd drwy wneud y canlynol:-

- (i) sicrhau bod y fframwaith yn fwy cyson â fframwaith perfformiad corfforaethol y Bwrdd Iechyd, a'r fframwaith asesu ymyriadau wedi'u targedu;
- (ii) darparu disgrifyddion mwy pendant ar gyfer y camau aeddfed ac enghreifftiol;
- (iii) defnyddio data meintiol yn well i lywio'r broses asesu; ac
- (iv) adlewyrchu'r gwaith o newid i broses o welliant parhaus.

Yn anffodus, nid yw'r gwaith hwn wedi cael ei ddatblygu'n llawn o ganlyniad i'r pwysau gweithredol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Bu rhai gwelliannau i'r fframwaith, o ran bod y datganiadau yn y matricesau aeddfedrwedd wedi cael eu hadolygu a'u cysoni â'r fframwaith perfformiad corfforaethol. Fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud o hyd i wella'r Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd er mwyn iddo ddod yn adnodd mwy effeithiol i fonitro ac asesu gwelliannau i wasanaethau dros amser.

Mae'r gwaith hwn wedi cael ei amserlennu yng nghynllun gwaith y Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod nesaf, a phan fydd y Panel yn adrodd nesaf rhagwelir y bydd y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd ar ei newydd wedd ar gael ac yn cael ei ddefnyddio fel sail i asesiad y Panel. Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae model presennol y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd yn ddigon i'r Panel allu gwneud penderfyniad gwrthrychol am gynnydd y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf.

Yn ystod mis Awst 2021, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei drydydd hunanasesiad yn erbyn matricesau aeddfedrwedd y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd. Cafodd yr adroddiad hunanasesu ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol i'w gymeradwyo ar 1 Medi.

Ar sail yr hunanasesiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dod i'r casgliad mai dyma yw lefel aeddfedrwedd y gwasanaeth mamolaeth ar gyfer y tri maes ar hyn o bryd:-




- Mae **Gofal Diogel ac Effeithiol** yn dal yn bendant yn y cam '**Canlyniadau**', gyda rhai agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Aeddfed';
- Mae **Ansawdd Profiadau Menywod** bellach yn bendant yn y cam '**Canlyniadau**', gyda nifer o agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Aeddfed';

² Mae esboniad manylach o fethodoleg y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd, a'r broses a ddefnyddiwyd i'w ddatblygu, ar gael yn adroddiadau cynharach y Panel. Mae crynodeb byr ar gael yn adroddiad Ebrill 2020, sydd ar gael [yma](#).

- Mae **Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth** bellach yn bendant yn y cam ‘**Canlyniadau**’, gyda rhai agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at ‘Aeddfed’.

Mae'r asesiadau hyn yn cael eu dangos ar ffurf llun yn Ffigur 2.

Ffigur 2: *Asesiad Aeddfedrwydd – Awst 2021*

	Y GWASANAETH MAMOLAETH – LEFEL AEDDFEDRWYDD				
	Elfennol	Cynnydd Cynnar	Canlyniadau	Aeddfed	Enghreifftiol
Gofal Diogel ac Effeithiol					
Ansawdd Profiadau Menywod					
Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth					

Mae'r Panel wedi adolygu rhesymeg y Bwrdd lechyd dros yr asesiadau hynny, ac er y gallai'r Panel fod wedi dod i benderfyniadau gwahanol am lefel nifer bach o elfennau unigol yn y fframwaith, mae'n cytuno â'r casgliadau cyffredinol.

Mae asesiad y Panel yn seiliedig ar nifer o elfennau, gan gynnwys tystiolaeth o gyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol, tystiolaeth a gasglwyd wrth arsylwi cyfarfodydd ac yn yr ymweliad â'r safle, a thriogli â ffynonellau allanol.

Dyma rai enghreifftiau o'r datblygiadau allweddol sydd wedi cael eu cyflawni yn ystod y 12 mis diwethaf, ac sydd wedi cyfrannu at yr asesiad cyfredol:-

- yn unol â Maniffesto Arweinyddiaeth Coleg Brenhinol y Bydwagedd, mae'r Bwrdd lechyd wedi atgyfnerthu'r strwythur ar gyfer uwch arweinyddiaeth bydwreigiaeth drwy benodi Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth, Gynaecoleg ac Iechyd Rhywiol Integredig parhaol, a fydd yn cael cefnogaeth gan ddau Bennaeth Bydwreigiaeth yn yr ardal;
- mae'r garfan arweinyddiaeth feddygol wedi cael ei chryfhau. Erbyn hyn, mae gan Grŵp Ardal Integredig pob Grŵp Gwasanaeth Clinigol (GGC) uwch dîm sefydledig sy'n cynnwys Rheolwr GGC, Pennaeth Bydwreigiaeth, Pennaeth/Dirprwy Bennaeth Plant a Phobl Ifanc, Cyfarwyddwr GGC ar gyfer Obstetreg a Gynaecoleg, a Chyfarwyddwr GGC ar gyfer Plant a Phobl Ifanc;
- i gefnogi'r strwythur diwygiedig yma, mae Rhaglen Arweinyddiaeth ar gyfer Meddygon Ymgynghorol ac Uwch-fydwagedd wedi cael ei chwblhau'n ddiweddar;

- mae'n amlwg bellach bod y Bwrdd yn arwain ac yn cymryd perchnogaeth dros y gwaith gwella, ac mae'n edrych yn debyg bod herio a chraffu cyson yn dod yn rhan fwyfwy amlwg o gyfarfodydd y pwyllgor a'r Bwrdd;
- mae'r gwasanaeth mamolaeth wedi ymuno â'r cynllun newydd ledled Cymru i symleiddio'r broses o recriwtio myfyrwyr bydwreigiaeth; mae'r cynllun yn cael ei ategu gan becyn cymhwysedd a ddatblygwyd ymhellach ar gyfer bydwagedd Band 5, ac mae rhaglen gynefino gadarn, dair wythnos o hyd wedi cael ei sefydlu;
- mae datblygiad pellach y fforwm 'My Maternity, My Way' wedi arwain at baratoi gwybodaeth ac adnoddau ar y cyd, cyfleu gwybodaeth i fenywod a theuluoedd am welliannau i wasanaethau, a rhaglen waith sydd wedi cael ei chynllunio i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'n bwysig dweud bod rhai o'r datblygiadau hyn wedi cael eu hysgogi gan waith y Bwrdd Iechyd i wella'n barhaus, yn hytrach na'u bod yn ymateb uniongyrchol i argymhelliad gan y Colegau Brenhinol. Mae hyn yn pwysleisio'r angen, sy'n cael sylw yn Adran 2.10, am ddull gwahanol o fonitro a gwerthuso cynnydd wrth symud ymlaen.

2.9 PERFFORMIAD CYMHAROL Y BWRDD IECHYD

Ar 13 Mai 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru drosolwg ystadegol o famolaeth a genedigaethau yng Nghymru. Mae'r datganiad wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, ac mae ar gael [yma](#). Mae'r datganiad yn rhoi sylw i gyfnod o bum mlynedd rhwng 2016 a 2020.

Roedd yr wybodaeth a'r dadansoddiad sy'n sail i'r datganiad hwn yn deillio, yn rhannol, o'r set ddata Dangosyddion Mamolaeth sy'n cyfuno cofnod geni plentyn â chofnod asesiad cychwynnol y fam. Mae'n ffynhonnell werthfawr o ddata a ddefnyddir i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi a strategaeth mamolaeth Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'r holl ystadegau sy'n cael eu cynhyrchu ar sail gwybodaeth o'r set ddata Dangosyddion Mamolaeth yn rhai arbrofol eu natur. Mae rhywfaint o broblemau o ran pa mor gyflawn yw'r data, ac maen nhw'n cael eu hegluro'n fanylach yn y datganiad. Mae'r data'n ei gwneud yn bosibl i gymharu perfformiad y Bwrdd Iechyd â'r byrddau iechyd eraill yng Nghymru ar draws ystod o ddangosyddion. Mae'r data wedi cael eu defnyddio'n ddiweddar fel sail i Adolygiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd gyda Llywodraeth Cymru o Berfformiad Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol.

Dyma'r tro cyntaf i'r Panel a'r Bwrdd Iechyd allu cael gafael ar y math yma o wybodaeth feincnodi a gellir dod i nifer o gasgliadau, sy'n cael eu hegluro yng ngweddill yr adran hon.

Mewn nifer o feysydd allweddol, mae gwasanaeth mamolaeth y Bwrdd Iechyd yn eithaf tebyg ar y cyfan i fyrddau iechyd eraill yng Nghymru. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys, er enghraifft:-

- menywod yn cael eu hasesiad cychwynnol cyn cyrraedd wythnos 10 eu beichiogrwydd;
- genedigaethau toriad Cesaraidd;
- genedigaethau gydag offer (gyda chymorth gefel neu fentws).

Mae'r data'n awgrymu bod y Bwrdd Iechyd yn cymharu'n llai ffafriol na byrddau iechyd eraill yng Nghymru o ran nifer y marw-enedigaethau.

Mae cyfraddau uwch o farw-enedigaethau yn aml yn gysylltiedig â materion sy'n ymwneud ag iechyd y boblogaeth, gan gynnwys gordewdra, ysmegu ac amddifadedd cymdeithasol. Mae Adroddiad Thematig y Categori Marw-enedigaethau sy'n cael ei gyhoeddi gan y Panel ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, yn rhoi sylw manwl i'r materion hynny.

Felly, nid yw'n syndod gweld bod y Bwrdd Iechyd hefyd yn cymharu'n llai ffafriol na byrddau iechyd eraill yng Nghymru yn y meysydd hynny sy'n ymwneud ag iechyd y boblogaeth, er enghraifft:-

- Y ganran a gafodd ddiagnosis o ordewdra yn yr asesiad cychwynnol;
- Y ganran o ysmygwyr yn yr asesiad cychwynnol.

Yn gorfforaethol, mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio fwy a mwy ar wella iechyd y boblogaeth, ac mae pecyn o fesurau eisoes wedi cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r meysydd lle mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn llai ffafriol. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys, er enghraifft:-

- adolygu'r ddarpariaeth gofal a chymorth iechyd meddwl i fenywod beichiog, a chydweithio â Thîm Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan i ddarparu hyfforddiant ychwanegol i staff bydwreigiaeth;
- defnyddio'r rhaglen 'Bump Start' (Gwasanaeth Cymorth i Famau ar gyfer Gordewdra) ar draws y sefydliad, a sicrhau bod menywod yn cael cefnogaeth a chysondeb gan eu bydwraig gymunedol er mwyn rheoli eu pwysau mewn ffordd iach;
- defnyddio'r rhaglen 'MAMMS' (modelau i famau allu cael cymorth i roi'r gorau i ysmegu) ar draws y sefydliad;
- ceisio cael achrediad eto gan Gynllun Cyfeillgar i Fabanod Sefydliad Iechyd y Byd, sy'n helpu mamau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am fwydo eu babi (mae Ysbyty Tywysoges Cymru eisoes wedi cyflawni hyn ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth a'r gwasanaeth newyddenedigol).

Mae bwriad hefyd i gynlluniau iechyd y boblogaeth gael lle amlwg mewn strategaethau yn y dyfodol, ac yn y weledigaeth bum mlynedd ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Bydd y Panel yn rhoi adroddiad pellach ar lwyddiannau cynnar y cynlluniau hynny pan fydd yn cyflwyno ei adroddiad cynnydd nesaf ym mis Mawrth 2022.

2.10 ASESU CYNNYDD Y BWRDD IECHYD – Y CAMAU NESAF

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd presennol, o safbwynt gwasanaeth mamolaeth,³ mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi cyflawni 55 o'r 70 o argymhellion gan y Colegau Brenhinol, gyda 10 o'r rheini angen camau pellach i sicrhau bod y gwelliannau sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn dod yn rhan annatod o'r ymarfer, a'u bod yn cael effaith gadarnhaol.

Mae hynny'n golygu mai dim ond 15 o argymhellion gwreiddiol y Colegau Brenhinol sydd ar ôl i'w cyflawni, ac mae nifer o'r rheini'n cyrraedd y cam lle byddant yn barod i gael eu cymeradwyo yn y cyfnod nesaf.

Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion y mae'r gwasanaeth mamolaeth wedi'u cyflawni hyd yma yn rhai o natur weithrediadol ar y cyfan; maen nhw'n ymwneud â gwelliannau yn y systemau a'r prosesau y mae angen eu rhoi ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn ddiogel ac yn effeithiol, yn cael ei arwain yn dda, yn cael ei reoli'n dda ac yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.

Yn groes i hynny, mae'r argymhellion hynny sy'n dal heb gael eu cyflawni ar hyn o bryd yn rhai o natur weddnewidiol i raddau helaeth. Maen nhw'n ymwneud â materion fel strategaeth, newid y diwylliant a datblygu arweinwyr. Bydd yn cymryd mwy o amser i gyflawni'r argymhellion hynny, a mwy byth o amser i sicrhau'r canlyniadau gofynnol.

Felly mae'r Panel yn credu bod y daith wella, yn sicr o ran y gwasanaeth mamolaeth, yn symud i gyfnod gwahanol a mwy cymhleth sydd wedi mynd y tu hwnt i argymhellion y Colegau Brenhinol, ac a fydd yn gwneud hynny fwy a mwy. Mae'r Panel felly'n gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o adrodd ar gynnydd, gan sicrhau ei fod yn dal i gadw at argymhellion y Colegau Brenhinol.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cydnabod y newid o fod yn weithrediadol i drawsnewidiol, ac mae'n ailddatblygu ei raglen wella o amgylch cyfres o becynnau gwaith, cynllun cerrig milltir a fydd yn newid ac yn datblygu yn ystod y daith wella, a chynllun gweithredu sy'n nodi camau nesaf y daith wella.

Bydd hyn yn arwain yn y pen draw at ddatblygu strategaeth a gweledigaeth bum mlynedd newydd ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth a newyddenedigol tua diwedd 2021.

Mae'r pecynnau gwaith, y cynllun cerrig milltir a'r cynllun gweithredu wedi cael eu datblygu'n helaeth, ac mae'r Panel yn rhag-weld y bydd mewn sefyllfa i roi disgrifiad mwy llawn ohonynt pan fydd yn adrodd nesaf ym mis Mawrth 2022. Mae saith pecyn gwaith i gyd, sy'n rhoi sylw i strategaeth, diwylliant, arweinyddiaeth, llywodraethu, profiad menywod, data a hyfforddiant.

³ Bydd argymhellion y Colegau Brenhinol a oedd yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau newyddenedigol yn cael eu hadolygu fel rhan o'r adolygiad manwl, a bydd y cynnydd a wnaed ar yr argymhellion hynny'n cael ei nodi yn adroddiad terfynol yr adolygiad manwl.

Mae'r dull gweithredu cyfannol a mwy deinamig yma'n cael ei groesawu'n fawr gan y Panel. Bydd yn golygu bod yr hyn a ddysgir o'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol, yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol, a gwaith gwella'n barhaus y Bwrdd lechyd yn gallu cael ei gynnwys yn y cynllun gwella wrth iddo ddod i'r amlwg.

Wrth ystyried y ffordd y mae'r rhaglen wella'n datblygu, mae'r Panel a'r Bwrdd lechyd wedi cytuno mewn egwyddor y bydd y Panel, pan fydd yn adrodd nesaf, yn symud oddi wrth ddefnyddio argymhelliad y Colegau Brenhinol fel y prif ffactor sy'n pennu cynnydd, ac yn symud tuag at ddull gweithredu sy'n seiliedig ar y pecynnau gwaith, y cynllun cerrig milltir a'r Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd. Ym marn y Panel, bydd hyn yn rhoi asesiad mwy arwyddocaol o gynnydd y Bwrdd lechyd, wrth ystyried y bydd pob un o'r pecynnau gwaith yn cynnwys metrigau a mesurau allbwn clir er mwyn gallu gwerthuso ac asesu cynnydd mewn ffordd wrthrychol.

Nid yw hyn yn golygu bod gweddill argymhellion y Colegau Brenhinol yn cael eu diystyru. Yn wir, byddan nhw'n dal yn rhan ganolog ac amlwg o'r pecynnau gwaith. Ond, roedd argymhellion y Colegau Brenhinol yn seiliedig ar giplun o gyfnod penodol. Ers hynny mae'r gwasanaeth, a'r cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo, wedi newid yn sylweddol. Mae'n awr yn bryd symud y tu hwnt i gyflawni'r argymhellion tuag at ddull gweithredu tymor hwy sy'n seiliedig ar y system gyfan.

Bydd y Panel yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd lechyd yn ystod y cyfnod nesaf i ddatblygu fframwaith asesu diwygiedig, a bydd canlyniad y trafodaethau hynny'n cael ei adlewyrchu pan fydd y Panel yn adrodd nesaf ym mis Mawrth 2022.

3 YMGYSYLLTU Â MENYWOD A THEULUOEDD

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Medi 2020, daeth i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd yn adeiladu'n raddol ar y cynnydd cynnar yr oedd wedi'i wneud i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio ei wasanaethau, a'i gymunedau ehangach.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae agwedd gyffredinol y Bwrdd Iechyd at ymgysylltu â menywod a theuluoedd wedi newid yn sylfaenol, ac mae hyn wedi arwain at fwy o hyder ymysg y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Erbyn hyn mae'n amlwg bod y Bwrdd Iechyd wir yn credu yng ngwerth ymgysylltu, ac mae'r strwythurau ar waith i wneud yn siŵr bod y newid hwn yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Mae COVID-19 yn amlwg wedi effeithio ar y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu ymgysylltu â'i gymunedau. Ond drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd greadigol, a mathau eraill o dechnoleg o bell i ymgysylltu a chydgyhyrchu gyda menywod a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth mamolaeth yn arbennig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu gwneud mwy o gynnydd yn yr elfen hon. Mae'r dulliau newydd hyn wedi llwyddo i gyrraedd llawer mwy o bobl leol nag a fyddai wedi cael eu cynnwys o'r blaen.

3.1 DATBLYGIADAU DIWEDDAR YM MAES YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU

Un o'r camau nesaf a oedd yn deillio o adroddiad blaenorol y Panel oedd datblygu map proses y Cylch Ymgysylltu. Cafodd y map ei gynnwys yng Nghynllun Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-2023, a gafodd ei gwblhau'n derfynol a'i rannu â'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r cynllun yn cynnwys y gwahanol fethodolegau sydd ar waith gan y gwasanaeth ar hyn o bryd er mwyn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a chasglu adborth, yn ychwanegol at y dulliau eraill y mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith yn y dyfodol agos.

Mae'r Fydwraig Ymgynghorol (sydd hefyd yn Arweinydd Ffrwd Waith Ansawdd Profiadau Menywod a Theuluoedd) wedi paratoi cyflwyniad cynhwysfawr sy'n rhoi manylion am daith ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd ers i argymhellion y Colegau Brenhinol gael eu hysgrifennu. Mae'n eithriadol o dda. Mae'r cyflwyniad yn dangos sut mae'r gwaith ymgysylltu wedi cael ei ehangu a'i gryfhau dros y cyfnod hwn. Mae hefyd yn dangos sut mae COVID-19 wedi creu cyfle i arloesi, a sut mae'r gwasanaeth wedi achub ar y cyfle hwnnw'n effeithiol.

Un o'r camau nesaf eraill a nodwyd gan y Panel yn ei adroddiad blaenorol oedd gweithredu Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion. Bydd y mesur (ar ffurf arolwg) yn canolbwyntio ar gasglu ac asesu profiadau menywod ar sail ansawdd y gofal maen nhw'n ei gael, yn hytrach na chanolbwyntio ar eu statws iechyd neu ar ganlyniadau eu gofal a'u triniaeth. Mae'r Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion yn cael eu cynnal gan system o'r enw Civica. Mae'r arolygon bellach wedi cael eu creu ar y cyd â'r menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac mae gwaith yn cael ei

wneud yn awr er mwyn gallu casglu a dadansoddi'r data. Rhagwelir y bydd y system yn weithredol erbyn diwedd mis Medi 2021, gyda data'n cael eu cynhyrchu'n barhaus i greu darlun mwy soffistigedig a manwl o brofiad menywod.

3.2 CAMAU NESAF Y DAITH YMGYSYLLTU

Er y cynnydd sylweddol y mae'r gwasanaeth mamolaeth wedi'i wneud, mae mwy i'w wneud eto i gyflawni cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn llawn, ac i sicrhau bod y newidiadau sydd wedi cael eu cyflawni hyd yma yn arwain at welliannau ac at wasanaethau'n cael eu dylunio mewn ffordd sy'n cynnig manteision gwirioneddol i fenywod, eu babanod a'u teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Yn benodol, dim ond newydd gael eu lansio y mae'r Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion, a gan fod COVID-19 wedi atal arolygon y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion, nid oes dadansoddiad gwrthrychol wedi cael ei gynnal o brofiadau menywod dros y 18 mis diwethaf. Mae'r broses o gyflwyno'r strategaeth ymgysylltu hefyd wedi cael ei chyfyngu oherwydd yr ymateb i'r pandemig. Felly, mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn adennill momentwm yn yr elfen hon dros y chwe mis nesaf, fel bod y sylfeini cadarn sydd wedi cael eu creu yn gallu cael eu cynnal a'u datblygu ymhellach. Mae'r camau gweithredu a fyddai'n dangos bod y momentwm wedi cael ei gynnal yn cynnwys y canlynol:-

- mae'r strategaeth ymgysylltu wedi cael ei diweddarau, a'i chyflwyno fel y mae cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu, er mwyn i'r amrywiaeth eang o ddulliau ymgysylltu a chyfathrebu sy'n cyrraedd pob cymuned fod yn ffynhonnell o adborth rheolaidd ar brofiadau menywod a theuluoedd;
- mae'r systemau ar gyfer casglu a dadansoddi'r adborth o Fesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn, ac mae themâu a materion allweddol yn cael sylw a'u rhannu'n rheolaidd mewn ffordd systematig;
- mae staff ar bob lefel, gan gynnwys staff meddygol, yn deall gwerth ymgysylltu fel sbardun ar gyfer newid a gwella gwasanaethau. Maen nhw'n cael eu cynnwys yn gyson, ac maen nhw hefyd wedi ymrwymo i egwyddorion cydgynhyrchu;
- mae'r gwasanaeth newyddenedigol yn dangos ei fod wedi dysgu o'r hyn a wnaed yn y gwasanaeth mamolaeth, ac mae'n datblygu dull integredig o ymgysylltu a chyfathrebu wrth symud ymlaen.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y camau nesaf pwysig yma, ac yn sicrhau bod y camau gweithredu sy'n angenrheidiol er mwyn eu cyflawni yn cael eu cynnwys yn ei becynnau gwaith a'r cynllun cerrig milltir sy'n eu hategu. Bydd y Panel yn parhau i fonitro datblygiadau i sicrhau bod y camau gweithredu'n arwain at ganlyniadau pendant i fenywod a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

3.3 CWYNIION A PHRYDERON

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad ym mis Medi 2020, roedd yn cydnabod bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb yn fwy prydlon i gwynion a phryderon. Fodd bynnag, roedd rhai themâu a ddaeth i'r amlwg yn dal i adlewyrchu'r problemau a gafodd eu nodi yn adolygiad y Colegau Brenhinol. Er bod y gwasanaeth mamolaeth wedi gwneud cynnydd yn ystod rhan gyntaf y cyfnod adrodd yma i ymateb a dysgu o themâu sy'n codi dro ar ôl tro, yn fwy diweddar mae'n edrych yn debyg ei fod wedi cymryd cam yn ôl. Yn ôl pob golwg, mae hynny'n gysylltiedig â newid i strwythur arwain a rheoli Grŵp Ardal Integredig. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu cysylltiadau cryfach yn y gwasanaeth unwaith eto, i sicrhau nad yw'r gwersi gwerthfawr a ddysgwyd yn cael eu colli. Fodd bynnag, bydd angen i'r Panel a'r Bwrdd Iechyd fonitro hyn wrth symud ymlaen.

4 GWELLA'R GWASANAETHAU NEWYDDENEDIGOL

Mae'r Panel a'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ers tro ei bod hi'n hollbwysig integreiddio gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol er mwyn darparu gwasanaeth diogel ac effeithiol o'r dechrau i'r diwedd, sy'n canolbwyntio'n ddi-dor ar anghenion menywod, eu babanod a'u teuluoedd. Yng nghamau cynnar y broses wella, am resymau y mae pawb yn ymwybodol ohonynt, roedd pwyslais brys ar yr elfennau 'gwneud yn ddiogel' ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth yn argymhellion y Colegau Brenhinol. Roedd hyn yn golygu nad oedd y gwasanaeth newyddenedigol o dan y chwyddwydr i'r un graddau â'r gwasanaeth mamolaeth yn nyddiau cynnar y broses o gyflwyno rhaglen wella'r Bwrdd Iechyd.

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Medi 2020, yn ôl hunanasesiad y Bwrdd Iechyd roedd y gwasanaeth newyddenedigol yn gwneud 'cynnydd cynnar' yn erbyn y matricesau aeddfedrwydd yn nhri maes y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd.⁴ Ar y llaw arall, aseswyd bod y gwasanaeth mamolaeth yn y cam 'canlyniadau' ym mhob un o'r tri maes. Roedd hynny'n ddealladwy wrth ystyried y pwyslais a roddwyd ar y gwasanaeth mamolaeth hyd at y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, cytunodd y Panel a'r Bwrdd Iechyd fod angen mwy o bwyslais ar agweddau newyddenedigol y rhaglen wella wrth symud ymlaen.

Roedd yr uchelgais i ddatblygu gwasanaeth mwy integredig wedi cymryd cam mawr ymlaen ym mis Mai 2021, pan ddaethpwyd â gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol at ei gilydd yn strwythurol fel rhan o'r Gyfarwyddiaeth Menywod a Phlant, a sefydlwyd wrth newid i'r fframwaith gweithredu Grŵp Ardal Integredig.

4.1 MWY O BWYSLAIS AR WASANAETHAU NEWYDDENEDIGOL

Wrth i'r pwyslais ar wasanaethau newyddenedigol gynyddu, penodwyd Uwchswyddog Cyfrifol, Cyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Newyddenedigol, a Thîm penodol ar gyfer Gwella Gwasanaethau Newyddenedigol. Er mwyn rhoi ffocws i'r gwaith gwella, nodwyd bod 16 o'r 70 o argymhellion gan y Colegau Brenhinol yn uniongyrchol berthnasol i'r gwasanaeth newyddenedigol, ac fe'u defnyddiwyd fel sail i'r cynllun gwella gwasanaethau newyddenedigol.

Erbyn mis Chwefror 2021, roedd rhywfaint o waith gwella cychwynnol wedi cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r 16 argymhelliad, ac roedd y Bwrdd Iechyd yn credu bod 9 o'r rheini'n barod i gael eu cymeradwyo fel rhai a oedd wedi cael eu cyflawni. Fodd bynnag, nid oedd y Panel yn gallu penderfynu a oedd yr argymhellion wedi cael eu cyflawni, yn rhannol oherwydd effaith COVID-19 ac yn rhannol oherwydd diffyg gwybodaeth arbenigol o fewn y Panel i gynnal yr asesiad.

⁴ Dyma'r tair ffrwd waith ar gyfer gwella'r gwasanaeth newyddenedigol: Gofal Diogel ac Effeithiol; Ansawdd Profiad y Teuluoedd; ac Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r ffrydiau gwaith ar gyfer gwella gwasanaethau mamolaeth, ac maen nhw'n cael eu rheoli ochr yn ochr â'i gilydd.

Ar yr un pryd, roedd pryderon yn dod i'r amlwg yn dilyn camau cynnar elfen newyddenedigol y Rhaglen Adolygiadau Clinigol, a oedd yn awgrymu bod rhai o'r methiannau yr oedd y Colegau Brenhinol wedi'u canfod yn y gwasanaeth mamolaeth i'w gweld hefyd yn y gwasanaeth newyddenedigol o bosibl. Cynyddodd y pryderon hynny yn dilyn yr hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd ei hun gydag Adnodd Adolygu Marwolaethau Amenedigol, a oedd yn ymwneud â marwolaethau newyddenedigol a oedd wedi digwydd ers mis Hydref 2018.

Mewn ymateb i'r darlun newydd yma, nid oedd y Bwrdd Iechyd na'r Panel yn gallu rhoi lefel y sicrwydd angenrheidiol nad oedd y problemau a nodwyd yn yr adolygiadau clinigol hanesyddol a'r ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol yn bresennol yn y gwasanaeth ar hyn o bryd.

O ganlyniad, cytunwyd bod angen gwneud rhywfaint o waith diagnostig pellach ar frys er mwyn cael gwell dealltwriaeth gyffredinol o'r sefyllfa. Roedd y Panel yn arbennig o falch bod llawer o'r ysgogiad i ymgymryd â'r gwaith diagnostig ychwanegol yma'n dod gan y Cadeirydd a gan aelodau annibynnol o Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd.

Ym mis Mawrth 2021, gyda chefnogaeth frwd y Bwrdd Iechyd, gwnaeth y Panel argymhelliad i'r Gweinidog ar y pryd y dylai'r broses oruchwylio roi mwy o bwyslais ar wasanaethau newyddenedigol.

Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad hwn, a chomisiynodd Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol i asesu ansawdd a diogelwch y gwasanaethau newyddenedigol sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan y Bwrdd Iechyd.

Ar yr un pryd, roedd y Gweinidog hefyd wedi penodi dau arbenigwr ar faterion newyddenedigol i ddarparu'r capasiti ychwanegol a'r wybodaeth broffesiynol arbenigol yr oedd eu hangen er mwyn cyflawni'r gwaith ac ehangu rôl oruchwylio'r Panel i gynnwys y gwasanaeth newyddenedigol yn benodol.

Mae rhagor o wybodaeth am y datblygiadau hyn, a gafodd sylw cyhoeddus, ar gael yn natganiad y Gweinidog i'r Senedd ar 22 Mawrth 2021. Gallwch weld copi [yma](#) o'r datganiad.

Cafodd yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol ei gomisiynu ar y cyd gan y Panel a'r Bwrdd Iechyd ym mis Ebrill 2021. Ei nod oedd darparu adolygiad manwl ac amserol o'r gwasanaethau newyddenedigol presennol, gan roi pwyslais ar ddiogelwch, effeithiolrwydd, dysgu a gwella.

Prif nod y gwaith yw asesu a yw'r gwasanaeth presennol yn ddiogel ac yn addas i'r diben, ac os na ellir rhoi'r sicrwydd hwnnw, nodi elfennau lle mae angen gwneud gwelliannau pellach. Yn benodol, mae'r Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol yn ceisio penderfynu a yw gwasanaethau newyddenedigol presennol y Bwrdd Iechyd:-

- yn ddiogel ac yn effeithiol;
- yn cael eu harwain a'u rheoli'n dda;
- yn canolbwyntio ar roi profiad o ansawdd da i fenywod a theuluoedd;

- wedi'u hintegreiddio â'r gwasanaeth mamolaeth i ddarparu gwasanaeth di-dor o'r dechrau i'r diwedd i fenywod a babanod;
- wedi'u hintegreiddio'n effeithiol o fewn Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol ehangach Cymru;
- yn addas i'r diben ac yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Cytunwyd ar gylch gorchwyl yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol gyda'r Bwrdd Iechyd. Roedd y Bwrdd Iechyd yn croesawu'r adolygiad o'i wasanaeth newyddenedigol, ac mae'n cyfrannu'n frwd at y broses.

Er bod y gwaith hwn yn canolbwyntio'n benodol ar yr uned newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, mae'n bwysig pwysleisio y bydd y canfyddiadau hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer yr uned newyddenedigol yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson a safonau cyffredin ar draws y Bwrdd Iechyd.

4.2 PWRPAS, FFORMAT A STRWYTHUR YR ADOLYGIAD MANWL O WASANAETHAU NEWYDDENEDIGOL

Mae'r Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol yn cael ei arwain gan Arweinwyr materion Newyddenedigol y Panel, ac yn cael cymorth gan dri chlinigydd hynod brofiadol sy'n gwbl annibynnol ar y Bwrdd Iechyd ac ar waith blaenorol y Panel.

Dechreuodd y gwaith o ddifrif ym mis Mai 2021, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r adolygiad yn cynnwys pedwar prif gam sy'n cyd-redeg, sef:-

- (i) asesiadau achos clinigol o'r gofal a roddwyd i'r babanod mwyaf sâl a ddaeth i'r gwasanaeth newyddenedigol yn ystod blwyddyn galendr 2020 (hy, y babanod hynny a oedd naill ai wedi marw gwaetha'r modd, neu y bu'n rhaid eu trosglwyddo er mwyn cael gofal dwys parhaus);
- (ii) 'Ymarfer Gwrando' helaeth ar gyfer teuluoedd, a gynhelir ar ffurf arolwg;
- (iii) cyfres o sgysiau strwythuredig â staff a rhanddeiliaid ehangach, ar ffurf grwpiau ffocws ac un i un; ac
- (iv) adolygiad o dystiolaeth ddogfennol sy'n ymwneud â phob agwedd ar y gwasanaeth newyddenedigol, ac elfennau perthnasol yn systemau a phrosesau ehangach y Bwrdd Iechyd.

Mae'r cam adolygu dystiolaeth wedi'i gwblhau ers mis Medi 2021, ac mae'r canfyddiadau sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil y gwaith hwn wedi cyfrannu at y camau eraill, yn enwedig y sgysiau â staff a rhanddeiliaid ehangach.

Mae nifer o sesiynau ymgysylltu wedi cael eu cynnal gyda grŵp amrywiol o staff, ac er y bu'n rhaid i'r rhan fwyaf o'r sesiynau hyn gael eu cynnal ar-lein oherwydd COVID-19, mae'r ymgysylltu wedi bod yn rhagorol hyd yma. Mae sesiynau yn y dyfodol wedi cael eu trefnu er mwyn cefnogi'r gwaith diagnostig wrth iddo ddatblygu.

Cafodd yr ‘Ymarfer Gwrando’ ar gyfer teuluoedd ei gwblhau’n ddiweddar. Cafwyd ymateb rhagorol (dros 100 o ymatebion i’r arolwg), ac roedd nifer sylweddol o deuluoedd wedi cynnig rhannu eu profiadau’n uniongyrchol. Er bod rhywfaint o themâu cynnar i’w gweld yn y darlun gwerthfawr sy’n dod i’r amlwg, mae dadansoddiad meintiol ac ansoddol pellach yn cael ei gynnal i ddeall yn llawn beth yw anghenion a dymuniadau’r menywod a’r teuluoedd sy’n defnyddio’r gwasanaeth newyddenedigol, ac i benderfynu sut gall y gwasanaeth ymateb er mwyn diwallu’r anghenion hynny.

Mae’r asesiad achos clinigol bron â chyrraedd hanner ffordd. Mae’n cynnwys asesiad annibynnol o sampl gynrychiadol o gyfnodau gofal rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020. Cafodd y cyfnodau gofal sy’n cael eu hasesu eu dynodi drwy ddefnyddio’r un meini prawf â chategori newyddenedigol elfen Golwg yn ôl 2016-2018 y Rhaglen Adolygiadau Clinigol, ond mae’r adolygiadau’n canolbwyntio’n benodol ar y gofal newyddenedigol a ddarparwyd.

Felly, y bwriad yw y bydd yr asesiadau’n ategu proses ymchwilio fewnol y Bwrdd Iechyd, yn hytrach na’u bod yn adolygiad clinigol llawn eu hunain.

4.3 UWCHGYFEIRIO PRYDERON SY’N DOD I’R AMLWG

Drwy gydol y broses adolygu, mae tîm yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â’r Bwrdd Iechyd, y Tîm Gwella Gwasanaethau Newyddenedigol, a staff ar bob lefel yn yr unedau. Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi cael eu cynnal i rannu’r hyn a ddysgwyd wrth iddo ddod i’r amlwg, ac mae unrhyw bryderon y mae angen eu huwchgyfeirio ar unwaith wedi cael eu codi drwy’r dulliau sefydledig sy’n ategu’r Rhaglen Adolygiadau Clinigol.

Ym mis Awst 2021, ar ôl triogli’r holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y tri mis blaenorol – gan gynnwys barn menywod a theuluoedd sy’n defnyddio’r gwasanaeth – daeth y tîm i’r casgliad nad oedd rhai o elfennau’r gwasanaeth newyddenedigol a ddarperir ar hyn o bryd yn Ysbyty’r Tywysog Siarl yn cyrraedd y safonau diogelwch ac effeithiolrwydd yr oedd yn disgwyl eu gweld mewn uned newyddenedigol sy’n gweithredu ar y lefel honno yn system gofal iechyd y DU.

Roedd y pryderon a nodwyd yn cynnwys presgripsiynu diogel, arbenigedd mewn penderfyniadau clinigol, safonau dogfennu, ac integreiddio gwasanaethau newyddenedigol â gwasanaethau mamolaeth.

Roedd y Panel wedi uwchgyfeirio’r pryderon hynny at y Bwrdd Iechyd fel bod modd gweithredu ar unwaith, er mwyn i’r gofal newyddenedigol sy’n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gael ei wneud yn fwy diogel ac effeithiol. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd yr argymhellion interim, ac ymatebodd yn uniongyrchol ac yn bendant.

Cafodd pryderon y Panel ynghylch diogelwch y gwasanaeth newyddenedigol eu huwchgyfeirio at Lywodraeth Cymru hefyd. Ar 7 Medi 2021, cyhoeddodd y Gweinidog presennol ddatganiad i'r Senedd a oedd yn amlinellu canfyddiadau interim yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol, ac yn egluro'r camau brys yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi'u cymryd i ymateb i'r canfyddiadau. Gallwch weld copi [yma](#) o ddatganiad y Gweinidog.

4.4 CAMAU BRYD Y BWRDD IECHYD

I ymateb i'r pryderon a oedd wedi cael eu huwchgyfeirio gan y Panel, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cymryd cyfres o gamau brys i leihau'r risgiau a nodwyd. Roedd y camau hyn yn cynnwys:-

- gwella arferion presgripsiynu;
- mwy o gymorth fferyllol drwy oruchwyliaeth ddyddiol o'r drefn bresgripsiynu, a gwneud rhagor o waith i ddatblygu archwiliadau, rhestrau gwirio a threfniadau gweithredu safonol;
- diwygio trefniadau i sicrhau bod menywod y mae angen eu cyfeirio at uned drydyddol yn cael eu trosglwyddo'n brydlon cyn geni er mwyn iddyn nhw eni'n ddiogel, gyda'r bwriad o leihau nifer y derbyniadau amhriodol i uned newyddenedigol Ysbyty'r Tywysog Siarl;
- sicrhau mwy o gefnogaeth a pherthynas waith agosach â'r uned drydyddol yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd;
- datblygu rhaglen gymorth canolfan drydyddol ar gyfer staff nyrsio newyddenedigol yn uned Ysbyty'r Tywysog Siarl;
- goruchwyllo meddygon ymgynghorol yn fwy dwys yn yr uned, a chynyddu'n gyffredinol faint o amser meddygon ymgynghorol sy'n cael ei neilltuo i'r uned;
- recriwtio dau feddyg ymgynghorol ychwanegol (roedd y mesur hwn eisoes ar y gweill, gydag un yn dechrau ar y swydd ym mis Tachwedd);
- gwella agweddau penodol ar ymarfer clinigol, gan gynnwys adolygiad brys o'r dull o oeri babanod yn therapiwtig ac ar gyfer y rheini y mae angen gosod tiwb yn eu tracea (intubation);
- gwella'r safon ddogfennu, gan gynnwys cyflwyno siart arsylwi ddiwygiedig.

Er mwyn gallu cymryd y camau hyn a sicrhau bod y gwelliannau a wneir yn dod yn rhan annatod o ymarfer bob dydd, mae'n hollbwysig bod y Bwrdd Iechyd yn cydweithio ag unedau cyfagos ac yn gweithio'n agosach gyda Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru.

Bydd y Panel yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf i fonitro a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r camau brys hyn er mwyn cynnal y ffocws a'r momentwm angenrheidiol, a sicrhau gwelliannau i wneud y gwasanaeth newyddenedigol presennol yn fwy diogel. Bydd y Panel yn rhoi adroddiad mwy manwl ar effeithiolrwydd y camau hynny pan fydd yn llunio adroddiad terfynol yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol.

4.5 MONITRO AC ADRODD AR GANFYDDIADAU YN Y DYFODOL

Rhagwelir y bydd adroddiad terfynol yr adolygiad manwl wedi cael ei gwblhau erbyn diwedd 2021. Bydd yr adroddiad yn dod â thystiolaeth o wahanol gamau'r rhaglen at ei gilydd i ddarparu gwerthusiad cynhwysfawr o'r gwasanaeth newyddenedigol presennol. Bydd yn canolbwyntio ar ddiogelwch ac effeithiolrwydd, a hefyd yn enwi elfennau allweddol i'w gwella ac yn argymhell camau gweithredu i gefnogi atebion tymor byr a rhai tymor hwy, gyda phwyslais ar welliannau mesuradwy â ffocws clinigol y gall y Bwrdd Iechyd eu rhoi ar waith a chadw golwg arnynt. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i ddangos gwelliannau o ran diogelwch, ac i sicrhau eu bod yn gynaliadwy.

Rhagwelir y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.

5 Y RHAGLEN ADOLYGIADAU CLINIGOL

Pan gyhoeddodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Medi 2020, roedd cam cyntaf y Rhaglen Adolygiadau Clinigol – a oedd yn canolbwyntio ar famau yr oedd angen gofal brys arnynt yn ystod yr enedigaeth – bron â chael ei gwblhau. Ers hynny mae ail gam y rhaglen wedi cael ei gwblhau, sy'n ystyried y gofal a roddwyd i fenywod a'u babanod a oedd, gwaetha'r modd, wedi'u geni'n farw. Mae canfyddiadau'r Panel yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Mae copi o Adroddiad Thematig y Categori Marw-enedigaethau ar gael [yma](#).

Mae Strategaeth Adolygiadau Clinigol y Panel, sydd ar gael [yma](#), yn esbonio'r rhaglen yn fanwl. Cafodd y Strategaeth ei chyhoeddi'n wreiddiol ym mis Hydref 2019, ac mae wedi cael ei diwygio ers hynny i adlewyrchu newidiadau mwy diweddar i'r broses. Felly, nid yw'r adran hon yn ailadrodd unrhyw wybodaeth am y broses. Yn hytrach na hynny, mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws presennol elfennau unigol y rhaglen.

5.1 GOLWG YN ÔL 2016-2018

Ar hyn o bryd, mae adolygiadau clinigol y Panel yn canolbwyntio ar ryw 160 o gyfnodau gofal y Bwrdd Iechyd rhwng Ionawr 2016 a Medi 2018.⁵ Mae'r gwaith yn cynnwys y 43 o ddigwyddiadau a gafodd eu henwi'n wreiddiol yn adroddiad y Colegau Brenhinol. Mae'r cyfnodau gofal yma wedi cael eu rhannu'n dri chategori, sydd wedi'u nodi yn Ffigur 3 yn y drefn y mae'r adolygiadau'n cael eu cynnal.

Ffigur 3: *Categoriâu'r Adolygiadau Clinigol*

CATEGORI	DISGRIFIAD
1. Afiachedd a marwolaethau ymysg mamau	Y gofal a roddwyd i famau, gan gynnwys y rheini yr oedd angen eu hanfon i'r uned gofal dwys (ICU) o bosibl
2. Marw-enedigaethau	Babanod a oedd wedi cael eu geni'n farw gwaetha'r modd
3. Afiachedd a marwolaethau ymysg babanod newydd-anedig	Babanod a fu farw, gwaetha'r modd, neu yr oedd angen gofal arbenigol arnynt yn syth ar ôl eu geni


Mae llwybr wedi cael ei ddatblygu er mwyn egluro i fenywod a theuluoedd beth yw camau'r adolygiadau clinigol. Gellir gweld y llwybr yn Ffigur 4, ac mae fersiwn fwy o'r llwybr wedi'i chynnwys yn *Atodiad C*.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd yn yr adran 'Sut Gwnaethom Ni Hynny' yn ail adroddiad thematig y Panel, sydd ar gael [yma](#).

⁵ Roedd nifer bach o'r hunanatgyfeiriadau sydd wedi'u cynnwys wedi digwydd cyn mis Ionawr 2016.

Oherwydd bod proses yr adolygiadau clinigol yn gymhleth, mae'n dal yn amhosibl rhag-weld yn gywir faint o amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau'r rhaglen lawn, a dweud yn union pryd y bydd yr holl fenywod a theuluoedd dan sylw yn cael gwybod am ganfyddiadau eu hadolygiad clinigol unigol.

Ffigur 4: Llwybr yr Adolygiadau Clinigol



Fodd bynnag, fel arwydd bras o'r cynnydd, mae Ffigur 5 yn dangos pa gam y mae pob un o'r tri chategori wedi'i gyrraedd ar hyn o bryd ar lwybr yr adolygiadau clinigol. Y camau sydd wedi'u disgrifio yn Ffigur yw'r camau sydd wedi'u nodi yn y golofn statws presennol yn y tabl.

Ffigur 5: Statws categorïau'r Adolygiadau Clinigol

CATEGORI	STATWS PRESENNOL
1. Afiachedd a marwolaethau ymysg mamau	Camau 11/12
2. Marw-enedigaethau	Camau 11/12
3. Afiachedd a marwolaethau ymysg babanod newydd-anedig	Camau 4/5/6/7

Cysylltwyd â phob menyw a theulu yn y ddau gategori cyntaf i gadarnhau bod eu hadolygiad wedi'i gwblhau, a bod y canfyddiadau ar gael os ydyn nhw'n dymuno eu cael.

Yn yr achosion hynny lle gofynnwyd am y canfyddiadau, mae'r canfyddiadau wedi cael eu rhannu â'r menywod a'r teuluoedd. Law yn llaw â hynny, mae'r menywod a'r teuluoedd wedi cael cynnig cwrdd â chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd neu Arweinwyr Clinigol y Panel i drafod eu canfyddiadau'n fanylach, os ydyn nhw'n dymuno. Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi anfon gohebiaeth i gydnabod y canfyddiadau, ac i ddweud pa gamau sydd wedi cael eu cymryd neu a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodwyd mewn perthynas â'u gofal.

O ran camau nesaf y Panel, er y bydd yn parhau i herio a darparu cymorth ar gyfer ymateb y Bwrdd Iechyd i ganlyniadau'r categori marw-enedigaethau, mae'r pwyslais wedi newid bellach tuag at y categori afiachedd a marwolaethau ymysg babanod newydd-anedig.

Mae hyn yn cynnwys adolygu tua 70 o gyfnodau gofal rhwng 1 Ionawr 2016 a 30 Medi 2018, pan gafodd babanod eu derbyn i unedau newyddenedigol y Bwrdd Iechyd yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Gwaetha'r modd, bu farw nifer o'r babanod hynny, neu cawsant eu trosglwyddo i ofal arbenigol parhaus.

Yn ogystal â bod yn garfan fawr arall, mae elfennau clinigol yr adolygiadau hyn yn fwy cymhleth at ei gilydd na'r categori blaenorol. Bydd yr adolygiadau hefyd yn archwilio i ba raddau yr oedd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol wedi cydweithio mewn ffordd integredig i roi gofal i famau a'u babanod.

Ar hyn o bryd, mae tua hanner y cyfnodau gofal]yn y categori afiachedd a marwolaethau ymysg babanod newydd-anedig wedi cael eu asesu gan dimau'r adolygiad clinigol annibynnol. Bydd hynny sydd wedi cael eu hadolygu yn cael eu dilysu yn awr, a bydd eu hansawdd yn cael ei asesu cyn paratoi adborth personol ar gyfer menywod a theuluoedd.

Rhagwelir y bydd y Panel yn dechrau ysgrifennu at fenywod a theuluoedd yn gynnar yn 2022 i gadarnhau bod eu hadolygiad clinigol wedi'i gwblhau a bod eu canfyddiadau ar gael, os ydyn nhw'n dymuno eu cael. Pan fydd yr holl ganfyddiadau unigol wedi cael eu rhannu, rhoddir adroddiad ar ganfyddiadau'r categori afiachedd a marwolaethau ymysg babanod newydd-anedig drwy gyhoeddi trydydd adroddiad thematig.

Ar ôl cwblhau'r trydydd adroddiad categori, a'r olaf, yn Adroddiad Golwg yn ôl 2016-18, bydd adroddiad cyffredinol yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi a fydd yn crynhoi'r hyn a ddysgwyd o'r tri chategori gyda'i gilydd. Mae'n dal yn rhy gynnar i wneud argymhellion i'r Gweinidog ynghylch yr angen i gynnal rhagor o adolygiadau ar gyfer y blynyddoedd cyn 2016, ac ni fydd hyn yn cael ei ystyried nes bydd yr elfen bresennol bron â chael ei chwblhau.

5.2 HUNANATGYFEIRIADAU

Mae'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol yn cynnwys proses ar gyfer adolygu cyfnodau gofal sydd wedi cael eu hunanatgyfeirio gan fenywod a'u teuluoedd. Mae llwybr wedi cael ei baratoi'n barod i egluro'r broses hunanatgyfeirio i fenywod a theuluoedd, ac mae wedi'i atodi yn *Atodiad D*.

Hyd yma, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael 25 o hunanatgyfeiriadau.⁶ Mae pob un ohonynt wedi cael eu brysbennu, a naill ai wedi cael eu cynnwys yn Rhaglen Adolygiadau Clinigol y Panel, neu wedi cael eu hadolygu gan y Bwrdd Iechyd gyda goruchwyliaeth Arweinwyr Clinigol y Panel.

Mae'r holl hunanatgyfeiriadau a ddaeth i law ar ôl i'r rhaglen ddechrau wedi dod i ben erbyn hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi anfon gohebiaeth i egluro'r canfyddiadau ac i roi manylion unrhyw gamau i'w cymryd, a hefyd i gynnig cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau pellach.

Mae'r broses hunanatgyfeirio yn dal ar agor i unrhyw fenywod neu deuluoedd sy'n poeni am y gofal mamolaeth neu'r gofal newyddenedigol a gawsant gan y Bwrdd Iechyd, pryd bynnag y cafodd y gofal ei ddarparu.

5.3 DIGWYDDIADAU DIFRIFOL ERS MIS HYDREF 2018

Yn adroddiad y Colegau Brenhinol ym mis Ebrill 2019, nodwyd pryderon sylweddol am brosesau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer nodi, graddio ac ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol. Nid oedd y broses dadansoddiad o wraidd y broblem wedi'i datblygu'n dda a phrin oedd y dystiolaeth fod yr hyn a ddysgwyd o'r digwyddiadau difrifol wedi cael ei rannu, neu'n cael ei ddefnyddio'n systematig i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau. Yn yr un modd, prin oedd y dystiolaeth fod menywod a theuluoedd yn rhan hanfodol o'r broses.

Yn wir, o ganlyniad i bryderon ynglŷn â'r ffordd yr oedd y Bwrdd Iechyd yn cofnodi digwyddiadau difrifol y comisiynwyd adolygiad y Colegau Brenhinol yn y lle cyntaf. O ganlyniad i hynny, cafodd nifer o argymhellion penodol ar gyfer gwella'r broses o ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

Fel y nodwyd yn Adran 7 Adroddiad Thematig y Categori Marw-enedigaethau a gyhoeddwyd gan y Panel, cafodd pryderon y Colegau Brenhinol ynglŷn â phrosesau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ac ymateb i ddigwyddiadau difrifol eu cadarnhau i raddau helaeth gan ganfyddiadau'r adolygiadau clinigol o'r categori marw-enedigaethau. Er nad oedd timau'r adolygiadau clinigol wedi nodi hyn yn benodol fel un o'r prif themâu, roedd yn fater trawsbynciol a ddaeth i'r amlwg o ystyriaethau ehangach y Panel Sicrhau Ansawdd.

Pan ddatblygwyd y Rhaglen Adolygiadau Clinigol yn wreiddiol, cytunwyd mai ar y Bwrdd Iechyd fyddai'r cyfrifoldeb dros reoli adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol ers mis Hydref 2018, ond y byddai'r Panel yn goruchwyllo'r gwaith. Roedd dau reswm am hyn. Y rheswm cyntaf, mwy ymarferol, oedd bod angen galluogi'r Panel i ganolbwyntio ar yr ymarfer Golwg yn ôl 2016-2018, a oedd yn argymhelliad penodol gan y Colegau Brenhinol. Yr ail reswm, a oedd yn fwy seiliedig ar egwyddorion, oedd y cytunwyd y dylai'r Bwrdd Iechyd ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros wella ei brosesau adolygu ei hun, a bod hynny'n annhebygol o ddigwydd pe bai rhaglen allanol annibynnol yn cael ei datblygu i adolygu digwyddiadau mwy cyfoes.

⁶ Mae'r 26 cyfnod gofal yn cynnwys 25 teulu.

Yn seiliedig ar hynny, cytunwyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn rheoli'r digwyddiadau difrifol ers mis Hydref 2018, ac y byddai'r Panel yn rhoi proses ar waith i samplu ymchwiliadau ar hap, gyda'r bwriad o gael y sicrwydd angenrheidiol i allu rhoi gwybod i'r Gweinidog bod y prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd yn addas i'r diben.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae pecyn cynhwysfawr o fesurau wedi cael eu rhoi ar waith i wella'r prosesau ar gyfer adrodd ar ddigwyddiadau ac ymchwilio iddynt, nid dim ond mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, ond ar draws y Bwrdd Iechyd yn ehangach. Mae hyn wedi cynnwys, ymysg mesurau eraill:-

- pecyn cymorth allanol gan Uned Gyflawni'r GIG (Cymru);
- buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant Dadansoddiad o Wraidd y Broblem;
- datblygu gweithdrefnau a pholisi corfforaethol newydd;
- cyflwyno adnoddau archwilio safonol a fframweithiau adrodd;
- gwell trefniadau cydlynu a monitro canolog;
- cymorth gan rwydweithiau cymheiriaid i ddarparu elfen o annibyniaeth.

Yn gynnar yn 2020, samplodd y Panel Sicrhau Ansawdd naw ymchwiliad i ddigwyddiadau difrifol fel ffordd o gael sicrwydd ynghylch ansawdd ac effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd. Yn anffodus, dim ond dau o'r naw oedd yn cyrraedd y safonau gofynnol, a chytunwyd y byddai gwaith sicrhau ansawdd y Panel yn cael ei atal dros dro nes bod y Bwrdd Iechyd yn hyderus y byddai ei brosesau'n gwrthsefyll craffu.

Cynhaliwyd ymarfer sicrwydd arall ym mis Ebrill 2021. Nodwyd rhywfaint o welliannau sylweddol yn y broses, fodd bynnag, roedd y Panel yn dal yn methu rhoi sicrwydd bod y broses drwyddi draw yn addas i'r diben ac yn rhan annatod o'r ymarfer. Roedd hefyd yn poeni bod y digwyddiadau yr oedd angen ymchwilio iddynt a'u cymeradwyo yn pentyrru, heb fod cynllun cadarn i gyflymu'r broses o gwblhau'r gwaith.

Ar sail hynny, fe wnaeth y Panel uwchgyfeirio ei bryderon ynghylch faint o amser yr oedd yn ei gymryd i ddatrys y broblem hon, a oedd yn arwain at fwy a mwy o fenywod a theuluoedd yn aros am ymateb gan y Bwrdd Iechyd, at oedi cyn rhannu adborth priodol â staff er mwyn hyrwyddo diwylliant teg sy'n dysgu, at ac oedi cyn rhannu gwersi hanfodol a ddysgwyd wrth adolygu'r digwyddiadau hyn gyda chlinigwyr, a allai effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i ddysgu o'i gamgymeriadau blaenorol.

Ym mis Ebrill 2021, cafodd Uned Gyflawni'r GIG (Cymru) ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd gyda'r gwaith hwn. Mae'r Uned Gyflawni wedi ymgymryd â darn penodol o waith sicrwydd mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn y Bwrdd Iechyd i gryfhau eu prosesau a'u systemau ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau a dysgu o ddigwyddiadau, yn ogystal â'u helpu i flaenoriaethu'r digwyddiadau difrifol sydd wedi pentyrru ac i ddelio â nhw'n brydlon.

Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n rheolaidd gan y Bwrdd drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol. Mae cynnydd cyson yn cael ei wneud erbyn hyn, ac mae'r Panel yn fodlon bod cynllun ar waith a ddylai olygu bod ymchwiliad llawn wedi cael ei gynnal ar bob digwyddiad difrifol yn y gorffennol erbyn mis Tachwedd 2021.

Bryd hynny bydd y Bwrdd Iechyd – gyda chefnogaeth yr Uned Gyflawni – yn cyflwyno pecyn o dystiolaeth i'r Panel, er mwyn iddo allu cael y sicrwydd sydd ei angen arno i gymeradwyo prosesau presennol y Bwrdd Iechyd ar gyfer ymchwilio i ddiwyddiadau difrifol fel rhai sy'n addas i'r diben. Bydd hyn yn golygu ailedrych ar ymchwiliadau sydd eisoes wedi cael eu hadolygu, a samplu detholiad o ymchwiliadau eraill dros y cyfnod.

6 Y CASGLIADAU A'R CAMAU NESAF

6.1 Y CYD-DESTUN

Dyma bumed adroddiad y Panel, sy'n crynhoi'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud i wneud gwelliannau yn ei wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn ystod y 12 mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2021.

Mae'r adroddiad yn gynhwysfawr, ac yn hunanesboniadol gobeithio, felly nid yw'r manylion yn cael eu hailadrodd. Fodd bynnag, efallai y byddai'n ddefnyddiol sôn am rai o'r prif gasgliadau a dyfarniadau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn heriol dros ben i'r Bwrdd Iechyd, i'r uwch arweinwyr a'u staff. Mae hefyd wedi bod yn heriol i'r menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd.

Roedd ail don COVID-19 – a ddechreuodd gael effaith o fis Hydref 2020 ymlaen – wedi cael effaith ddyfnach ar raglen wella'r Bwrdd Iechyd ac wedi ei gwanhau fwy na'r don gyntaf. Mae'n bwysig cadw'r cyd-destun hwn mewn cof wrth ystyried y cynnydd sydd wedi cael ei wneud.

Pan gynhaliodd y Panel asesiad interim o'r cynnydd ym mis Chwefror 2021, daeth i'r casgliad mai lefel gyfyngedig o gynnydd gafodd ei wneud, o ganlyniad uniongyrchol i effaith COVID-19, ac y byddai'r Panel a'r Bwrdd Iechyd wedi disgwyl i rai pethau penodol fod yn eu lle erbyn hynny. Ar sail hynny, gyda chaniatâd y Gweinidog, cafodd yr adroddiad cynnydd a oedd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2021 ei ohirio am chwe mis.

Ym mis Ebrill 2021, wrth i ail don COVID-19 ddechrau lleihau, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng y Panel a'r Bwrdd Iechyd er mwyn ailedrych ar y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol a rhoi ffocws newydd iddi.

Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi cyfres o fesurau ar waith i adfywio'r rhaglen wella, ac i adennill y momentwm a'r ffocws a gollwyd yn ystod cyfnod COVID-19. Mae hyn yn cynnwys penodi Cyfarwyddwr Rhaglen profiadol, ailddylunio'n sylfaenol y fframwaith rheoli rhaglenni, a rhoi sylw i elfennau risg yn gynharach – er enghraifft, rheoli ac ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol ers 2018.

Mae Adran 2 yn cynnwys crynodeb mwy manwl o'r mesurau hyn a'u heffaith.

O ganlyniad i ailedrych ar Raglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth y Bwrdd Iechyd a rhoi ffocws newydd iddi, mae'r Panel yn credu ei bod 'yn ôl ar y trywydd iawn' erbyn hyn ar ôl colli ffocws a momentwm dros y 12 mis blaenorol, a oedd yn ddealladwy.

6.2 ASESU'R CYNNYDD

I baratoi ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r Panel wedi dod â gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau at ei gilydd ac wedi'i gwerthuso'n systematig, er mwyn darparu asesiad gwrthrychol o gynnydd y Bwrdd Iechyd.

Mae Adran 2 yr adroddiad yn rhoi disgrifiad manwl o'r broses asesu a'r wybodaeth a oedd wedi deillio ohoni. Fodd bynnag, gellir dod i'r casgliadau eang canlynol:-

- mae'r cynnydd wedi bod yn arafach nag y byddai'r Panel a'r Bwrdd Iechyd wedi'i obeithio, oherwydd effaith COVID-19;
- cymerwyd cam yn ôl mewn rhai meysydd, ond yn yr achosion hynny, mae'r rhesymau dros hynny'n amlwg ac mae cynlluniau a llwybrau ar waith i adennill y tir a gollwyd;
- **er bod gwaith i'w wneud o hyd, mae'r gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud yn y gwasanaeth mamolaeth dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf wedi cael eu hatgyfnerthu i raddau helaeth, ac maen nhw'n dal yn rhan annatod o'r ymarfer gweithredol;**
- mae rhywfaint o gynnydd graddol pellach wedi'i wneud, ac mae'r Panel wedi cytuno bod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau cymeradwyo pump arall o 70 o argymhellion y Colegau Brenhinol fel rhai sydd wedi'u cyflawni'n llawn;
- **mae hynny'n golygu bod cyfanswm o 55 o argymhellion wedi'u cyflawni erbyn hyn, ac felly mae bron i bedwar o bob pump (79%) wedi cael eu cyflawni bellach.**

Ni ddaeth y Panel i unrhyw gasgliadau pendant ynghylch cynnydd ar elfennau newyddenedigol y cynllun gwella gan fod yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol yn dal i fynd rhagddo (er, fel y mae adran 4 yn egluro, mae rhywfaint o bryderon wedi cael eu nodi, a gafodd eu huwchgyfeirio wedyn at y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru).

Mae'r Panel a'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd er mwyn gallu monitro cynnydd y Bwrdd Iechyd dros amser. Yn ystod mis Awst 2021, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei drydydd hunanasesiad yn erbyn matricesau aeddfedrwydd y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd, a daeth i'r casgliadau canlynol:-

- Mae **Gofal Diogel ac Effeithiol** yn dal yn bendant yn y cam '**Canlyniadau**', gyda rhai agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Aeddfed';
- Mae **Ansawdd Profiadau Menywod** bellach yn bendant yn y cam '**Canlyniadau**', gyda nifer o agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Aeddfed';
- Mae **Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth** bellach yn bendant yn y cam '**Canlyniadau**', gyda rhai agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Aeddfed'.

Mae'r Panel wedi adolygu rhesymeg y Bwrdd Iechyd, ac er y gallai fod wedi dod i benderfyniadau gwahanol am lefel nifer bach o elfennau unigol yn y fframwaith, mae'n cytuno â'r casgliadau cyffredinol.

Er nad yw'r lefelau mewn unrhyw un o'r meysydd wedi newid, mae yna dystiolaeth o gynydd, yn enwedig yn y meysydd Ansawdd Profiadau Menywod ac Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth, fel y mae Adran 2 yr adroddiad yn dangos.

Ym mis Gorffennaf 2021, treuliodd y Panel dri diwrnod yn olynol yn y Bwrdd Iechyd, yn adolygu'r cynnydd ac yn chwilio am dystiolaeth bod y gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud ers adolygiad y Colegau Brenhinol wedi dod yn rhan annatod o'r ymarfer gweithredol. Bu'r Panel yn ymweld ag unedau mamolaeth a newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac yn Ysbyty Tywysoges Cymru, gan gwrdd â staff rheng flaen, goruchwylwyr a rheolwyr.

Dyma oedd y cyfle cyntaf i ymweld â'r ysbytai ac i gwrdd wyneb yn wyneb â staff ers dechrau COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Felly, roedd yn gyfle gwerthfawr i bwysu a mesur pethau, ac i fesur i ba raddau yr oedd staff yn ymwneud â'r broses wella ac yn ymrwmo iddi. Ar sail yr ymweliad, daeth y Panel i'r casgliadau canlynol:-

- er bod staff yn amlwg wedi blino ac yn gweithio o dan bwysau gweithredol sylweddol, roedd eu hagwedd yn gadarnhaol ar y cyfan;
- **roedd ymdeimlad cryf o ymrwymiad ar bob lefel, a phwyslais gwirioneddol ar anghenion defnyddwyr gwasanaeth;**
- roedd teimlad o hyder pwylllog, yn enwedig ymysg rheolwyr, arbenigwyr a'r rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r rhaglen wella;
- er ei bod yn amlwg bod yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma yn destun balchder, mae ymdeimlad o realaeth hefyd ynghylch faint sydd eto i'w wneud;
- roedd mwy o deimlad o fod yn agored ac yn dryloyw, ac roedd y staff yr un mor barod i siarad am y problemau yr oeddent yn eu hwynebu yn ogystal â'u llwyddiannau;
- roedd mwy o deimlad o gyfeiriad ar y cyd nag o'r blaen, gyda staff allweddol yn gallu cyfleu cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn gliriach.

Mae'r Panel yn credu bod y broses wella yn symud i gam gwahanol a mwy cymhleth erbyn hyn, sy'n mynd y tu hwnt i argymhellion y Colegau Brenhinol. Mae'r rhesymau dros hynny'n cael eu trafod yn fanylach yn adran 2.1 yr adroddiad.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cydnabod y newid o fod yn weithrediadol i drawsnewidiol, ac mae'n ailddatblygu ei raglen wella o amgylch cyfres o becynnau gwaith, cynllun cerrig milltir a fydd yn newid ac yn datblygu yn ystod y daith wella, a chynllun gweithredu sy'n nodi camau nesaf y daith wella. Bydd hyn yn arwain yn y pen draw at ddatblygu strategaeth a gweledigaeth bum mlynedd newydd ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth a newyddenedigol tua diwedd 2021.

Mae'r dull gweithredu cyfannol a mwy deinamig yma'n cael ei groesawu'n fawr gan y Panel. Bydd yn golygu bod yr hyn a ddysgir o'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol, yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol, a gwaith gwella'n barhaus y Bwrdd Iechyd yn gallu cael ei gynnwys yn y cynllun gwella wrth iddo ddod i'r amlwg.

Bydd y Panel yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd yn ystod y cyfnod nesaf i ddatblygu fframwaith asesu diwygiedig, a bydd canlyniad y trafodaethau hynny'n cael ei adlewyrchu pan fydd y Panel yn adrodd nesaf ym mis Mawrth 2022.

6.3 Y CAMAU NESAF

Mewn adroddiadau cynnydd blaenorol, mae'r Panel wedi nodi cyfres o'r camau nesaf a oedd i fod i roi ffocws i'r Bwrdd Iechyd yn ystod y cyfnod adrodd nesaf. Mae'r broses hon wedi bod yn ddefnyddiol hyd yma.

Gan fod y Bwrdd Iechyd bellach yn symud tuag at fethodoleg rhaglen fwy strwythuredig, nid yw'r Panel yn credu bod angen creu disgwyliadau ychwanegol y tu hwnt i'r rheini sydd eisoes wedi cael eu derbyn a'u cynnwys yn y pecynnau gwaith a'r cynlluniau cerrig milltir sy'n sail i'r cynllun gwella.

6.4 ARGYMHELLION

Wrth ystyried y cynnydd sydd wedi cael ei wneud, ac sy'n dal i gael ei wneud, ac ymrwymiad parhaus amlwg y Bwrdd Iechyd i'r broses wella, nid yw'r Panel yn teimlo bod angen gwneud argymhellion penodol ar hyn o bryd i'r Bwrdd Iechyd na'r Gweinidog eu hystyried.

7 RHESTR O ATODIADAU

Atodiad A: Rhestr o'r Argymhellion sydd wedi cael eu cyflawni

Atodiad B: Rhestr o'r Argymhellion y mae angen cymryd camau pellach ar eu cyfer

Atodiad C: Llwybr yr Adolygiadau Clinigol

Atodiad D: Llwybr Hunanatgyfeirio

Atodiad E: Cynnydd y Bwrdd Iechyd ar y Camau Nesaf

Rhestr o'r Argymhellion sydd wedi cael eu cyflawni (Medi 2020-Medi 2021)

Yn y cyfnod adrodd presennol (Medi 2020-Medi 2021), mae'r Panel wedi asesu tystiolaeth ategol a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd, ac wedi dilysu pum argymhelliad arall (sy'n deillio'n uniongyrchol o adroddiad y Colegau Brenhinol) a gafodd eu cymeradwyo'n fewnol gan y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol.

Yn ychwanegol at y pum argymhelliad sydd wedi'u cyflawni, mae'r Panel o'r farn y bydd tri argymhelliad ychwanegol hefyd wedi cael eu cyflawni'n llawn cyn bo hir. Rhoddir adroddiad ar y rhain yn y cyfnod adrodd nesaf (Medi 2021-Ebrill 2022).

FFRWD WAITH Y PROSIECT: Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth				
Cyf.	Y Ffynhonnell	Yr Argymhelliad	Dyddiad Dilysu	Angen Camau Pellach?
7.39	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Adolygu'r ymarfer gweithio ar gyfer y ffordd o gyflawni'r ddarpariaeth gan feddygon ymgynghorol mewn gwasanaethau gynaecelegol ar ôl yr uno. Rhaid cynnal asesiad risg i bennu'r cymysgedd achosion ar gyfer llawdriniaeth a gynlluniwyd ar safle Ysbyty Brenhinol Morgannwg pan na fydd darpariaeth gynaeceleg breswyl.	22 Chwefror 2021	Bydd y Panel yn adolygu'r argymhelliad eto ymhen chwe mis er mwyn sicrhau bod y systemau sydd ar waith yn rhan annatod o'r fframwaith Grŵp Ardal Integredig newydd, a'u bod yn gwbl weithredol ar ôl COVID-19.
7.42	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Ar y cyd â'r tîm Datblygu Sefydliadol, ymgymryd â gwaith gyda staff ar bob graddfa ynghylch cyfathrebu, parchu ei gilydd ac ymddygiadau proffesiynol. Rhaid dal staff yn atebol am ymddygiad gwael, a deall sut mae hyn yn effeithio ar ddiogelwch a chanlyniadau menywod.	22 Chwefror 2021	Does dim bwriad i gymryd camau pellach ar gyfer yr argymhelliad hwn. Mae'r Panel yn disgwyl i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl argymhellion sydd wedi'u cyflawni yn cael eu monitro'n barhaus, er mwyn gwneud yn siŵr na fydd yn cymryd cam yn ôl o gwbl.
7.69	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Canfod a meithrin talentau arweinyddiaeth lleol.	22 Chwefror 2021	Does dim bwriad i gymryd camau pellach ar gyfer yr argymhelliad hwn. Mae'r Panel yn disgwyl i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl argymhellion sydd wedi'u cyflawni yn cael eu monitro'n barhaus, er mwyn gwneud yn siŵr na fydd yn cymryd cam yn ôl o gwbl.

FFRWD WAITH Y PROSIECT: Ansawdd Profiadau Menywod

Cyf.	Y Ffynhonnell	Yr Argymhelliad	Dyddiad Dilysu	Angen Camau Pellach?
7.53	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Adolygu'r strategaeth a'r dulliau ar gyfer cyfathrebu, cynorthwyo ac ymgysylltu er mwyn dangos parodrwydd i fod yn agored, gonest a thryloyw, a sicrhau na roddir pwyslais ar reoli negeseuon allweddol yn unig.	3 Medi 2021	Does dim bwriad i gymryd camau pellach ar gyfer yr argymhelliad hwn. Mae'r Panel yn disgwyl i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl argymhellion sydd wedi'u cyflawni yn cael eu monitro'n barhaus, er mwyn gwneud yn siŵr na fydd yn cymryd cam yn ôl o gwbl.
7.54	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Rhoi blaenoriaeth i raglen ymgysylltu sy'n rhoi lle canolog i deuluoedd. Dylai menywod a theuluoedd yr oedd y digwyddiadau wedi effeithio arnynt fod yn rhan o'r broses o wella, cyd-ddylunio a newid diwylliant y gwasanaeth newydd.	2 Awst 2021	Bydd y Panel yn adolygu'r argymhelliad eto ymhen chwe mis er mwyn sicrhau bod y momentwm wedi cael ei gynnal, a bod y sylfeini sydd wedi cael eu creu hyd yma yn cael eu cynnal a'u datblygu ymhellach.

Rhestr o'r Argymhellion y mae angen cymryd camau pellach ar eu cyfer (Medi 2020-Medi 2021)


Yn y cyfnod adrodd presennol (Medi 2020-Medi 2021), mae'r Panel wedi ailasesu tystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd ynghylch 21 o argymhellion, a oedd yn deillio'n uniongyrchol o adroddiad y Colegau Brenhinol, sydd wedi cael eu cyflawni'n barod. Penderfynwyd y bydd camau pellach yn cael eu cymryd yn ystod y cyfnod adrodd nesaf ar gyfer 10 argymhelliad, i sicrhau bod y gwelliannau'n dod yn rhan annatod o'r ymarfer ac yn cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i fenywod, babanod a theuluoedd.

FFRWD WAITH Y PROSIECT: Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth			FFRWD WAITH Y PROSIECT: Gofal Diogel ac Effeithiol		
Cyf.	Y Ffynhonnell	Yr Argymhelliad	Cyf.	Y Ffynhonnell	Yr Argymhelliad
7.05	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Rhaglen hyfforddi CTG.	7.23	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Rhannu canlyniadau digwyddiadau difrifol yn rheolaidd ac mewn fformat cyson, priodol a hawdd ei ddeall er mwyn gwella'r ffordd y mae gwersi'n cael eu dysgu.
7.18	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Dulliau o weithio rhwng meddygon ymgynghorol ar ôl yr uno.	7.27	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Darparu adnoddau ychwanegol i'r tîm Llywodraethu a Risg Mamolaeth er mwyn sicrhau adolygiadau amserol.
7.22	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Trafod y canlyniadau i ddigwyddiadau difrifol yn arfarniadau'r meddygon ymgynghorol.	7.36	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Rhaid sefydlu goruchwyliaeth glinigol a goruchwyliaeth gan feddygon ymgynghorol dros weithdrefnau ymarferol ar gyfer yr holl staff (gan gynnwys bydwragedd arbenigol a meddygon staff).
7.30	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Sicrhau bod y Cyfarwyddwr Meddygol yn arfer goruchwyliaeth a rheolaeth effeithiol dros gorff y meddygon ymgynghorol.			
7.32	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Darpariaeth gan obstetrydd ymgynghorol.			
7.37	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Rhaglen addysgu amlddisgyblaethol ar gyfer yr adran gyfan.			
7.40	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Sgiliau a chymwyseddau ar gyfer rolau ymarfer estynedig.			

Llwybr yr Adolygiadau Clinigol

Y PANEL TROSOLWGW ANNIBYNNOL
AR WASANAETHAU MAMOLAETH
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

RHAGLEN ADOLYGIADAU CLINIGOL



Llwybr Hunanatyfeirio

Hunangyfeiriadau



Sut rydyn ni'n delio â Hunangyfeiriadau

Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â menywod a theuluoedd i ateb cwestiynau, gan ganolbwyntio ar ddysgu a gwella.

1. Os oes cwestiynau neu bryderon gyda chi am unrhyw ofal mamolaeth gawsoch chi cyn y 31ain o Hydref 2018, gallwch chi ofyn i hyn gael ei ystyried o dan y Broses Hunangyfeirio. Os cawsoch chi ofal ar ôl y dyddiad hwn, bydd eich pryderon yn cael eu hadolygu yn unol â gweithdrefnau 'Gweithio i Wella', sy'n cael eu rheoli gan y Bwrdd Lechyd.
2. Os yw'r broses hunangyfeirio yn berthnasol i'ch gofal chi, byddwn ni'n edrych yn gyntaf i weld a yw'ch sefyllfa chi'n bodloni meini prawf y Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth. Os felly, byddwn ni'n cyfeirio'ch gofal chi at y Panel ac yna byddan nhw'n cysylltu â chi er mwyn esbonio beth fydd yn digwydd nesaf.
3. Os nad yw'ch sefyllfa'n bodloni'r meini prawf, bydd Uwch-Fydwraig yn cysylltu â chi er mwyn trafod eich cwestiynau neu'ch pryderon, naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Gallai hyn gynnwys mynd trwy gofnodion blaenorol ac adolygiadau i weld a oes modd ateb eich cwestiynau neu'ch pryderon.
4. Mae'n bosibl y byddwch chi'n penderfynu ar ôl y cam hwn bod yr Uwch-Fydwraig wedi mynd i'r afael â'ch cwestiynau a'ch pryderon mewn ffordd sy'n eich bodloni. Os nad ydych chi'n fodlon, a hoffech chi i'r mater gael ei adolygu ymhellach, bydd yr Uwch-Fydwraig yn gwneud argymhelliad i'r Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth am y ffordd orau o gynnal yr adolygiad.
5. Gallai'r adolygiad gael ei gynnal gan y Bwrdd Lechyd, neu fel arall gallai trefnu adolygiad annibynnol fod yn addas. Bydd pob adolygiad yn cael ei gynnal yn unol ag egwyddorion 'Gweithio i Wella'. Bydd y Fydwraig Arweiniol yn esbonio'r broses i chi, a bydd hi'n ystyried eich barn chi wrth wneud argymhelliad i'r Panel.
6. Bydd y Panel Annibynnol yn ystyried argymhelliad y Fydwraig Arweiniol, ynghyd â'ch barn chi, ac yn penderfynu ar y ffordd orau o gynnal yr adolygiad. Byddan nhw'n esbonio eu penderfyniad i chi, ynghyd â'r rhesymau dros wneud y penderfyniad.
7. Ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau, boed hynny gan y Bwrdd Lechyd neu'n annibynnol, bydd y canfyddiadau a'r casgliadau yn cael eu cyfeirio yn ôl at y Panel Annibynnol er mwyn iddyn nhw gael eu hystyried ymhellach. Bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu â chi hefyd, a byddwch chi'n cael y cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau eraill sydd gyda chi.
8. Gan weithio gyda'r Panel, byddwn ni'n sicrhau bod unrhyw wersi sydd yn dod o adolygiad eich gofal yn cael eu hystyried yn ofalus, a'u bod yn arwain at welliannau i'r gofal rydyn ni'n ei ddarparu yn y dyfodol.

1

GWETHIO I WELLA

Y broses ar gyfer delio â chwynion a phryderon yn y 12 mis diwethaf.

2

ADOLYGIAD CLINIGOL ANNIBYNNOL

Adolygu achosion sy'n bodloni meini prawf y cam cyntaf 2016-18.

3

HUNANGYFEIRIO

Er mwyn ateb cwestiynau, pryderon a/neu i gefnogi adolygiadau nad yw 1 a 2 yn delio â nhw.



Tim Hunangyfeirio

Mae Bydwraig Arweiniol newydd yn y swydd. Mae hi yn y broses o benodi mwy o staff i ymateb.



Cefnogaeth Emosiynol

Mae'r Bwrdd Lechyd wedi comisiynu gwasanaethau cwnsela emosiynol i gefnogi menywod a theuluoedd.



Sut i gysylltu
CTUHB_Concerns@wales.nhs.uk
 neu

01443 744915

Cynnydd y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r Camau Nesaf sy'n deillio o Adroddiad Cynnydd Hydref 2020

Cam	Statws	Tystiolaeth o'r Cynnydd
1. Adborth yr Adolygiadau Clinigol – byddai'r Panel yn annog y Bwrdd Iechyd i gymryd camau i sicrhau bod y cynlluniau mae'n eu datblygu ar hyn o bryd i reoli proses adborth yr adolygiadau clinigol yn rhai cadarn a chynhwysfawr.	Wedi'i Gyflawni	Cyhoeddwyd adroddiad thematig cyntaf y Panel ym mis Ionawr 2021. Datblygodd y Bwrdd Iechyd ymateb cynhwysfawr i gyfathrebu â'r cyhoedd, y cyfryngau a rhanddeiliaid, a gafodd ei oruchwylio gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. Rhoddwyd pecyn cymorth cynhwysfawr ar waith ar gyfer menywod, teuluoedd a staff hefyd. Mae'r pecyn cymorth yn cael ei ddatblygu'n awr ar gyfer cyhoeddi'r ail adroddiad thematig.
2. Effaith COVID-19 – dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu effaith COVID-19 ar y gweithgareddau neu'r prosesau hynny sydd wedi cael eu gohirio neu eu cyfyngu, a chymryd y camau angenrheidiol i'w hadfer neu i roi bywyd newydd iddyn nhw cyn gynted â phosibl.	Wedi'i Gyflawni	Cafodd trefn weithredu safonol ar leihau risg ei datblygu ym mis Mehefin 2021. Mae llwybrau adfer wedi cael eu darparu ar gyfer gweithgareddau allweddol y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos cynnydd da yn erbyn y llwybrau hyn – er enghraifft, Hyfforddiant Aml-broffesiynol Ymarferol mewn Obstetreg. Mae risg COVID-19 yn cael ei rheoli'n uniongyrchol o fewn cofrestr risg y rhaglen wella. Mae'r gofrestr hon yn cael ei rheoli drwy'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol.
3. Y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth – o ystyried datblygiadau diweddar yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth, dylai'r Bwrdd Iechyd a'r Panel fynd ati ar y cyd i adolygu'r trefniadau ar gyfer monitro, gwerthuso ac adrodd ar gynnydd.	Gwaith ar y Gweill	Ym mis Mawrth 2021 penodwyd Cyfarwyddwr Rhaglen gan y Bwrdd Iechyd, a oedd â hanes o reoli rhaglenni newid a thrawsnewid cymhleth. Ers hynny, mae'r trefniadau rheoli rhaglenni wedi cael eu haildylunio'n sylfaenol ar sail cyfres o becynnau gwaith, cynllun cerrig milltir a chynllun gweithredu a fydd yn arwain at ddatblygu gweledigaeth a strategaeth tymor hwy. O fewn hynny, bydd y cynllun cerrig milltir yn rhoi amserlenni clir ac elfennau allweddol i'w cyflawni, a bydd yn gysylltiedig â chanlyniadau a metrigau pan fydd hynny'n briodol. Yn ystod y cyfnod nesaf, bydd y Panel a'r Bwrdd Iechyd yn ailddatblygu'r trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd ar sail y trefniadau diwygiedig. Mae Adran 2.10 yr adroddiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth.

4.	<p>Datblygu ymhellach y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (y Fframwaith) – mae'r Panel yn credu y byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd lechyd drefnu gweithdy amlddisgyblaethol arall yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, er mwyn adolygu'r Fframwaith presennol a chytuno ar gam nesaf ei ddatblygiad.</p>	Wedi'i Gyflawni	<p>Cynhaliwyd gweithdy ym mis Rhagfyr 2020 a oedd yn cynnwys y Panel, y Bwrdd lechyd a Llywodraeth Cymru. Daethpwyd i gytundeb ynghylch sut bydd y Fframwaith yn cael ei ddatblygu wrth symud ymlaen. Yn anffodus, nid yw'r datblygiadau y cytunwyd arnynt wedi cael eu rhoi ar waith eto, oherwydd effaith COVID-19. Fodd bynnag, mae adolygiad o'r Fframwaith wedi'i gynnwys yn rhaglen waith y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ar gyfer mis Hydref 2021. Er bod y gwaith datblygu eto i'w wneud, roedd y cam yn ymwneud â chynnal gweithdy ac, o'r herwydd, cofnodwyd bod y cam wedi'i gyflawni.</p>
5.	<p>Integreiddio Gwasanaethau – Dylai'r Bwrdd lechyd ddod o hyd i ateb strwythurol tymor hwy a fyddai'n sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn cael eu hintegreiddio'n agosach at ei gilydd.</p>	Wedi'i Gyflawni	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu dau Grŵp Gwasanaeth Clinigol newydd ar gyfer Gwasanaethau lechyd Menywod a Phlant yng Ngrwpiau Ardal Integredig Merthyr Cynon a Phen-y-bont ar Ogwr, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021. Mae hyn yn dod â gwasanaethau newyddenedigol a mamolaeth at ei gilydd o dan un gyfarwyddiaeth. Mae'r broses o newid i'r fframwaith Grŵp Ardal Integredig yn dal i fynd rhagddi. Serch hynny, roedd y cam yn ymwneud â dod o hyd i ateb tymor hwy, ac o ran hynny, ystyrir bod y cam wedi'i gyflawni.</p>
6.	<p>Y Cylch Ymgysylltu – Mae'r Panel yn credu bod map proses y Cylch Ymgysylltu yn ddatblygiad pwysig y dylid bwrw ymlaen ag ef cyn gynted â phosibl.</p>	Wedi'i Gyflawni	<p>Cafodd Cynllun Ymgysylltu 2020-2023 ei ddrafftio, ei gwblhau a'i rannu â'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2020. Mae'r cynllun yn cynnwys y gwahanol fethodolegau sydd ar waith gan y gwasanaeth ar hyn o bryd er mwyn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a chasglu adborth, yn ogystal â methodolegau eraill y mae'r gwasanaeth yn ymrwymo i'w rhoi ar waith yn y dyfodol agos. Mae map proses y cylch ymgysylltu yn rhan hanfodol o'r strategaeth.</p>
7.	<p>Datblygu Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion – mae'r Panel yn credu bod Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion yn ddatblygiad pwysig y dylai'r Bwrdd lechyd fwrw ymlaen ag ef cyn gynted â phosibl.</p>	Wedi'i Gyflawni	<p>Fe aeth system Civica yn weithredol ym mis Awst 2021, ac mae'r arolygon o ddefnyddwyr gwasanaethau mamolaeth wedi cael eu creu. Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i strwythuro data ac i sefydlu cysylltiadau â gwahanol ddyfeisiau (ee, iPads). Rhagwelir y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Medi. Mae Adran 3 yr adroddiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth am gyflwyno'r broses Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion.</p>

8.	Cwynion a Phryderon – bydd y Panel yn parhau i fonitro sut mae'r Bwrdd lechyd yn ymateb i themâu sy'n codi dro ar ôl tro mewn cwynion a phryderon.	Gwaith ar y Gweill	Y Grwpiau Ardal Integredig sydd bellach yn gyfrifol am reoli cwynion a phryderon. Mae data perfformiad yn cael eu casglu'n fisol drwy'r system hon. Bu rhywfaint o heriau yn nyddiau cynnar y broses o newid o'r model sy'n cael ei arwain gan y gwasanaeth, i'r fframwaith Grŵp Ardal Integredig. Bydd y Panel yn monitro'r sefyllfa dros y misoedd nesaf i sicrhau bod y trefniadau diwygiedig yn magu gwreiddiau. Mae Adran 3 yr adroddiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth.
9.	Cyfleu'r Cynnydd – dylai'r Bwrdd lechyd fynd ati cyn gynted ag y bo modd i ddatblygu proses sy'n cyfleu'r cynnydd mae'n ei wneud i wella gwasanaethau mamolaeth.	Wedi'i Gyflawni	Mae agwedd y sefydliad at gyfathrebu ac ymgysylltu wedi symud ymlaen yn sylweddol dros y 12 mis diwethaf yn dilyn penodi Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Cynorthwyol, ac adolygiad sylfaenol o gapasiti a gallu'r sefydliad. Mae'r ffaith bod argymhelliad 7.53 y Colegau Brenhinol wedi cael ei gymeradwyo yn adlewyrchu hynny. Mae staff cyfathrebu penodol wedi cael eu recriwtio, ac mae nifer o sianeli cyfathrebu wedi cael eu datblygu ac yn dal i gael eu datblygu. Bydd gwefan y gwasanaeth mamolaeth yn mynd yn weithredol ddiwedd mis Medi 2021.
10.	Digwyddiadau Difrifol ers mis Hydref 2018 – dylai'r Bwrdd lechyd fynd ati cyn gynted â phosibl i gwblhau ei adolygiad o'r systemau a'r broses sydd ar waith ar hyn o bryd i sicrhau ansawdd a chysondeb yr adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol, er mwyn i'r Panel ailafael yn ei waith sicrhau ansawdd yng nghyswllt digwyddiadau ers mis Hydref 2018.	Gwaith ar y Gweill	Mae Uned Gyflawni'r GIG (Cymru) yn cynorthwyo'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol i gyflawni'r elfennau angenrheidiol sydd ar ôl i'w gwella yn eu prosesau rheoli digwyddiadau. Mae creu rhestr gynhwysfawr a chytunedig o ddigwyddiadau agored yn y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ers mis Hydref 2018 wedi bod yn garreg filltir bwysig. Mae'r tîm corfforaethol yn gweithio'n agos gydag arweinwyr materion mamolaeth a newyddenedigol, yn ogystal â thimau llywodraethu Grwpiau Ardal Integredig, i fwrw ymlaen â'r achosion yn gyflym. Mae'r tîm canolog wedi sefydlu Paneli Cau a Sicrwydd amlddisgyblaethol a fydd yn cynnull pob pythefnos i ystyried cau, sicrhau ansawdd a phwyso a mesur camau pellach ar gyfer rhwng 6 a 10 o ddigwyddiadau sydd wedi'u cwblhau. Cynhaliwyd y panel cyntaf ar 30 Gorffennaf 2021, a chynhaliwyd tri digwyddiad dysgu ar 2 Awst 2021. Mae adran 5 yr adroddiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth.

8 RHESTR TERMAU

A&E	Adran Damweiniau ac Achosion Brys
AMU	Ochr yn ochr ag uned a arweinir gan fydwragedd
ANNP	Uwch-ymarferydd Nyrsio Newyddenedigol
Apgar	Dull sgorio a ddefnyddir i asesu cyflwr babi ar ei enedigaeth
AW	Archwilio Cymru
Badgernet	System rheoli data cleifion newyddenedigol
BP	Pwysedd gwaed
BR+	Birthrate plus
CD	Cyfarwyddwr Clinigol
CEO	Prif Swyddog Gweithredol
CHC	Cyngor Iechyd Cymuned
CLC	Gofal o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol
CMB	Cyfarfod bwrdd clinigol
CMO	Y Prif Swyddog Meddygol
CNO	Y Prif Swyddog Nyrsio
COO	Y Prif Swyddog Gweithredu
CPAP	Pwysedd positif parhaus yn y llwybr anadlu
CPD	Datblygiad proffesiynol parhaus
CSfM	Goruchwylwyr clinigol i fydwragedd
CSR	Cyfraddau toriad Cesaidd
CTG	Cardiotocograffi
CTMUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
CTUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Datix	Meddalwedd diogelwch cleifion
DOM	Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth
DON	Cyfarwyddwr Nyrsio
DU	Uned Gyflawni GIG Cymru
EBC	Each Baby Counts
EFM	Monitro'r ffetws yn electronig
ELCS	Toriad Cesaidd dewisol
EMCS	Toriad Cesaidd brys
ETT	Tiwb endotracheaidd
Euroking	System TG genedlaethol ar gyfer mamolaeth
FGR	Cyfyngiad o ran twf y ffetws
FMU	Uned Bydwreigiaeth Annibynnol
GAP	Protocol asesu twf
GMC	Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
GP	Meddyg Teulu
Greatix	Cynllun sy'n seiliedig ar 'Datix' ar gyfer rhannu adborth cadarnhaol â'r staff
GROW	Pwysau delfrydol yn ystod y beichiogrwydd
HB	Bwrdd Iechyd
AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
HIE	Enseffalopathi isgemig hypocsig
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Crwner EM	Crwner Ei Mawrhydi
HOM	Pennaeth Bydwreigiaeth
HOMAG	Grŵp Cyngori Penaethiaid Bydwreigiaeth Cymru
AD	Adnoddau Dynol
HSCSC	Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
HSIB	Y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd
HTA	Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
IA	Clustfeinio Ysbeidiol
ICU	Uned Gofal Dwys
ILG	Grŵp Ardal Integredig
IMSOP	Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth
IOL	Dod â'r broses esgor yn ei blaen
IPAAF	Y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd
IPPV	Cymorth Anadlu Ysbeidiol gyda Phwysedd Positif
DPA	Dangosyddion perfformiad allweddol
ALI	Awdurdod Lleol
LNU	Uned leol ar gyfer babanod newydd-anedig
LSA MO	Swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod arolygu lleol
LSCS	Toriad Cesaraidd segment is
MBRRACE	Mamau a babanod: Lleihau risg drwy archwiliad ac ymholiadau cyfrinachol
MDT	Tîm amlddisgyblaethol
MHSS	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
MID	Y Cyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Mamolaeth
MITs	System Technoleg Gwybodaeth ar gyfer Mamolaeth (yn bwydo i mewn i QlikSense)
MLC	Gofal o dan arweiniad bydwragedd
MLU	Uned a arweinir gan fydwragedd
MMMW	My Maternity My Way (y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth wedi'i ailddatblygu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg)
MNIB	Y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol
MNIP	Y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol
MNIT	Y Tîm Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol
MPB	Y Bwrdd Perfformiad Mamolaeth
AS	Aelod o'r Senedd
MSLC	Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth
MVF	Fforwm Maternity Voices
Llwybr NBC	Llwybr Gofal Cenedlaethol ar gyfer Profedigaeth
NEWTT	Llwybr tracio a throthwy rhybudd cynnar ar gyfer y newydd-anedig
NICU	Uned gofal dwys i'r newydd-anedig
NMC	Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
NMPA	Archwiliad Mamolaeth ac Amenedigol Cenedlaethol
NNAP	Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol
NNU	Uned Babanod Newydd-anedig
O2	Ocsigen
O&G	Obstetreg a Gynaecoleg
OD	Datblygu sefydliadol
PADR	Adolygiad arfarnu a datblygu personol
PALS	Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion
PCH	Ysbyty'r Tywysog Siarl

PDM	Bydwraig Datblygu Ymarfer
PMRT	Adnodd Adolygu Marwolaeth Amenedigol
POW	Ysbyty Tywysoges Cymru
PREMs	Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion
PROMPT	Hyfforddiant Aml-broffesiynol Ymarferol mewn Obstetreg
PROMS	Mesurau Adrodd ar Ganlyniadau Cleifion
PSAG	Cipolwg ar statws claf
PSOW	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
PTR	Gweithio i Wella
Q&SC	Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
QA	Sicrhau ansawdd
QlikSense	Meddalwedd gwybodaeth a dadansoddeg weledol i fusnesau
RCA	Dadansoddiad o wraidd y broblem
RCoA	Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion
RCM	Coleg Brenhinol y Bydwagedd
RCOG	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr
RCPCH	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
RGH	Ysbyty Brenhinol Morgannwg
SANDS	Cymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion
SB	Marw-enedigaethau
SBAR	Acronym Saesneg ar gyfer 'situation, background, assessment and recommendation'
SCBU	Uned gofal arbennig i fabanod
SCU	Uned gofal arbennig
SFH	Uchder y ffwndws symffysis
SFSP	Porth diogel i rannu ffeiliau
SGA	Bach ar gyfer oed y ffetws
SI	Digwyddiad difrifol
SM	Mesurau Arbennig
CAMPUS	Acronym ar gyfer Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol
SOM	Goruchwyliwr y bydwragedd
SRO	Uwch-swyddog Cyfrifol
SWP	Cynllun De Cymru
TI	Ymyriad wedi'i Dargeddu
Trac	Cronfa ddata fawr yn y DU o 'hysbysfyrdau swyddi' ar gyfer y sector iechyd a'r sector cyhoeddus
UHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol
USS	Sgan uwchsain
WEEE	Cyfarfodydd gweithredol sy'n ymwneud â'r Gweithlu, Effeithiolrwydd, Diogelwch a Phrofiadau ac Ymgysylltu
WMNN	Rhwydwaith Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru
LIC	Llywodraeth Cymru
WRP	Cronfa Risg Cymru

DS, Mae'r Rhestr Termau yma'n un gyffredinol, ac mae'n cynnwys termau sydd wedi cael eu defnyddio yn adroddiadau'r Panel, neu a allai gael eu defnyddio ynddynt yn y dyfodol. Ni fydd pob un o'r termau o reidrwydd wedi cael eu defnyddio yn yr adroddiad penodol yma.